Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
51/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
30/08/2017

# Adolygiad o'r Rhaglen Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg (ETT)

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78859-324-3

Adolygiad o'r Rhaglen Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg

Huw Bryer, Ymchwil OB3 Research
Heledd Bebb, Ymchwil OB3 Research
Dr Mark Llewellyn, Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru

Bryer, H; Llewellyn, M a Bebb H; (2017). Adolygiad o'r Rhaglen Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Rhif yr adroddiad YGLI 51/2017.

Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/review-efficiency-through-technology-programme/?lang=cy

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Janine Hale
Prif Swyddog Ymchwil, Economeg Iechyd
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 6539
Ebost: janine.hale@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Geirfa... 2
1. Cyflwyniad 3
2. Methodoleg 5
3. Y Cyd-destun Polisi a Strategol 8
4. Saernïaeth y Rhaglen ETT 14
5. Gweithrediad 26
6. Effaith 32
7. Trefniadau Monitro a Gwerthuso at y Dyfodol 37
8. Casgliadau ac Argymhellion 42
Llyfryddiaeth 48

**Atodiadau**

Atodiad A: Templed ar gyfer adolygu dogfennaeth prosiectau 49
Atodiad B: Canllawiau Pwnc Lled-strwythuredig 64
Atodiad C: Rhestr o'r rhanddeiliaid a'r arweinwyr prosiect a gafodd gyfweliadau 73
Atodiad D: Y Prosiectau Gwerthuso Cyflym ac Uwchraddio a Gymeradwywyd (Thema 1 y Gronfa ETT) 75

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 4.1: Trosolwg o saernïaeth y Rhaglen ETT 16
Ffigur 4.2: Model Rhesymeg y Rhaglen ETT 24

**Geirfa**

| **Acronym** | **Diffiniad** |
|---|---|
| AgorIP | Platfform Arloesi Agored Mynediad Agored |
| CAMPUS | Cyrraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol |
| CAREMORE | Safonau, gweithgarwch, cwmpas adnoddau, modelau gofal, trefniadau gweithredol, adolygu a gwerthuso gofal. |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| eHealth | Arferion gofal iechyd a gynorthwyir gan brosesau electronig a chyfathrebu. |
| EoI | Datganiad o Ddiddordeb |
| ER positive | Math o ganser y fron yw *Estrogen receptor-positive* |
| ESNR | Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol - un o adrannau Llywodraeth Cymru |
| ETT | Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg |
| GIG | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| HSSG | Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - un o adrannau Llywodraeth Cymru |
| IP | Eiddo Deallusol |
| mHealth | Talfyriad o iechyd symudol, sef ymadrodd a ddefnyddir ar gyfer ymarfer meddygaeth ac iechyd y cyhoedd gyda chymorth dyfeisiau poced. |
| NISCHR | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd |
| RAG | Coch, Ambr, Gwyrdd |
| SHIPP | Partneriaeth Arloesi Gofal Iechyd Abertawe |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| WIHSC | Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru |
| WWIC | Canolfan Arloesi ym Maes Gwella Clwyfau Cymru |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Penododd Llywodraeth Cymru OB3 Research a Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) Prifysgol De Cymru i gyflawni adolygiad o'r Rhaglen Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg (ETT).

1.2 Cyhoeddwyd y Rhaglen ETT gan Weinidog Llywodraeth Cymru dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd[1] ym mis Ionawr 2015 fel rhaglen £10m gyda'r nod o hyrwyddo effeithlonrwydd trwy dechnoleg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru[2].

1.3 Nod y Rhaglen ETT yw cyflymu'r gwaith o arddangos, gwerthuso a mabwysiadu cynnyrch a gwasanaethau newydd i'w gweithredu, gan wella effeithlonrwydd a darparu gwell deilliannau ar gyfer cleifion yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus.

1.4 Nod arall y Rhaglen yw annog a chynorthwyo'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) i gynyddu lefelau gweithgarwch arloesol (trosglwyddo technoleg yn bennaf) ac i gynyddu ei ymgysylltiad â phartneriaid allanol – ac yn enwedig byd diwydiant a phrifysgolion.

1.5 Mae'r Rhaglen ETT wedi ei strwythuro o gylch pedair thema cyflawni:

- Thema 1 - Mabwysiadu Technoleg.
- Thema 2 - Datblygu Technoleg.
- Thema 3 – Arloesi ac Ymgysylltu Byd Diwydiant.
- Thema 4 - Partneriaethau Rhyngwladol ac â'r Undeb Ewropeaidd.

**Nodau ac amcanion yr adolygiad**

1.6 Nodau'r adolygiad fel y'u pennwyd yn y fanyleb ymchwil yw:

- Asesu'r broses o weithredu'r rhaglen.
- Asesu canfyddiadau am effeithiolrwydd y Rhaglen.

[1] Mark Drakeford AC
[2] Ffynhonnell: http://www.wales.nhs.uk/news/35734

1.7 Mae cyfres o bedwar amcan penodol yn ategu'r nodau hyn, sef:

- Asesu canfyddiadau rhanddeiliaid allweddol am weithrediad y Rhaglen.
- Asesu canfyddiadau rhanddeiliaid allweddol am effeithiolrwydd y Rhaglen. Yn y cyd-destun hwn, bydd angen i'r adolygiad archwilio a yw'r rhaglen ETT yn cyflawni'r hyn y cafodd ei sefydlu i'w gyflawni.
- Adolygu'r adroddiadau gwerthuso sydd wedi dod i law (am brosiectau unigol a ariannwyd drwy'r ETT), a llunio crynodeb naratif o'i heffaith hyd yn hyn.
- Cyflwyno argymhellion o ran beth y gellid ei fesur yn gyson ar draws prosiectau, a chamau eraill a allai gynorthwyo gwerthusiad o effaith y rhaglen ETT yn y tymor hwy.

## 2. Methodoleg

2.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n disgrifio'r dull a ddefnyddiwyd ac yn tynnu sylw at nifer o faterion methodolegol a gododd yn ystod proses yr adolygiad.

**Dull o Weithredu**

2.2 Defnyddiwyd dull methodolegol â phedwar cam wrth gyflawni'r adolygiad. Cyflawnwyd y rhaglen waith dros gyfnod o bum mis rhwng Rhagfyr 2016 ac Ebrill 2017.

2.3 Cam cychwynnol oedd Cam 1, ac roedd yn cynnwys:

- Mynychu cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod rhaglen waith yr adolygiad a chytuno ar y gofynion o ran data a gwybodaeth.
- Paratoi adroddiad cychwynnol a oedd yn disgrifio'r rhaglen waith derfynol a gymeradwywyd.

2.4 Cam pennu cwmpas oedd Cam 2, ac roedd yn cynnwys:

- Paratoi offerynnau ymchwil, gan gynnwys templed i adolygu dogfennaeth y prosiectau a ariannwyd drwy'r ETT (Atodiad A) ac *aide memoire* ar gyfer y cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol a chynrychiolwyr y prosiectau a ariannwyd drwy'r ETT (Atodiad B).
- Cyflawni cyfweliadau pennu cwmpas gyda dau o arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru.
- Arsylwi ar achlysur Rhwydwaith Arloeswyr Comisiwn Bevan yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr 2016.
- Ceisio, derbyn ac adolygu gwybodaeth gefndir am y Rhaglen ETT.
- Adolygu dogfennau yn ymwneud â 39 o brosiectau gwerthuso cyflym ac uwchraddio a ariannwyd o dan Thema 1 y Rhaglen ETT. Ar y cyfan, roedd y dogfennau'n cynnwys ffurflenni cais, llythyrau cymeradwyo grantiau ac adroddiadau chwarterol ar gynnydd. Mewn lleiafswm o achosion, roedd adroddiadau gwerthuso ar gael i'w harchwilio hefyd (gweler yr adran ar faterion methodolegol).
- Adolygu dogfennau yn ymwneud â'r Hyb Mabwysiadu Technoleg Cenedlaethol a Phrosiectau Enghreifftiol Bevan (a ariennir o dan Thema 1 o Raglen ETT).

- Adolygu dogfennau yn ymwneud â’r prosiectau AgorED, SHIPP ac AgorIP (a ariennir o dan Thema 2 o Raglen ETT).
- Adolygu dogfennau yn ymwneud â Chanolfan Arloesi ym Maes Gwella Clwyfau Cymru (a ariennir o dan Thema 3 o Raglen ETT).

2.5 Roedd Cam 3 yn cynnwys cynnal cyfweliadau lled-strwythuredig gyda:

- 10 o randdeiliaid y Rhaglen ETT. Mae rhestr o'r bobl a gafodd gyfweliadau yn Atodiad B.
- Cynrychiolwyr o sampl o wyth o brosiectau a ariennir drwy’r ETT. Cafodd yr wyth prosiect eu dethol i'w hadolygu'n fwy manwl ar y sail eu bod yn cwmpasu Themâu 1, 2, a 3 y Rhaglen ETT. Cymerwyd ein hasesiad o gryfderau a gwendidau prosiectau yn seiliedig ar yr adolygiad dogfennol a gyflawnwyd yn rhan o Gam 2 i ystyriaeth yn hyn o beth, a dewiswyd cymysgedd o brosiectau yr oeddem yn teimlo eu bod yn gadarn, yn gymedrol ac yn wan ar gyfer ein sampl. Ceir rhestr o gynrychiolwyr y prosiectau a gafodd gyfweliadau yn Atodiad B.

2.6 Roedd Cam 4 yn cynnwys dadansoddi'r gwahanol ffynonellau tystiolaeth, a pharatoi adroddiad adolygu terfynol.

2.7 Yn ogystal â'r pedwar cam yma, fe gyflwynon ni ganfyddiadau ein hadolygiad interim yn achlysur y Rhwydwaith Technoleg Iechyd ar 15 Mawrth 2017. Roedd cynrychiolwyr o’r prosiectau a ariannwyd o dan wahanol themâu'r Rhaglen ETT yn bresennol yn y cyfarfod.

**Materion methodolegol**

2.8 Cododd dau fater yng nghwrs yr adolygiad a effeithiodd ar y fethodoleg.

2.9 Yn gyntaf, nid oes unrhyw fanyleb na dogfen weithredu ffurfiol sy'n pennu nodau, amcanion, model cyflawni na metrics perfformiad y Rhaglen ETT i gyd. Penderfyniad pwrpasol gan yr arweinwyr polisi yn Llywodraeth Cymru a fu ynghlwm wrth ddylunio a sefydlu'r Rhaglen ETT oedd peidio â sefydlu dogfen o'r fath. Y bwriad yn hytrach oedd alinio'r rhaglen yn uniongyrchol ag amcanion polisi lefel uchel, a chaniatáu ar gyfer gweithrediad cyflym gan ddefnyddio model cyflawni ystwyth a hyblyg.

2.10 Er y trafodir rhai o oblygiadau ehangach hyn [h.y. diffyg dogfen fanyleb ar gyfer y rhaglen] mewn penodau diweddarach o fewn yr adroddiad adolygu hwn, roedd diffyg dogfen fanyleb 'draddodiadol' ar gyfer y rhaglen yn golygu bod cyfleu theori ffurfiol am resymeg y newid neu’r ymyrraeth sy'n gysylltiedig â rhaglen o'r math hwn (h.y. disgrifio'r angen, y nodau lefel uchel, y mewnbwn/adnoddau, yr allbwn a'r deilliannau) yn fwy ymestynnol o lawer.

2.11 Yn ail, roedd manyleb yr adolygiad yn cyfeirio at yr angen am archwilio a dadansoddi 'adroddiadau gwerthuso dethol, a monitro neu adrodd ar y ddogfennaeth a geir gan y gwahanol brosiectau a ariennir trwy'r ETT, heb fod yn fwy nag wyth adroddiad neu 800 tudalen'[3] . Wrth bennu cwmpas y gwerthusiad, daeth hi'n amlwg y byddai llai o dystiolaeth werthuso ar lefel prosiect ar gael nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Rhyddhawyd gwybodaeth am 42 o brosiectau a ariannwyd o dan Thema 1 o'r Rhaglen ETT fel prosiectau gwerthuso cyflym ac uwchraddio i'w hadolygu. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth yma'n cynnwys ffurflenni cais a llythyrau cymeradwyo’n bennaf (ar gyfer 40 prosiect), ac adroddiadau chwarterol ar gynnydd yn seiliedig ar weithrediad (ar gyfer 39 prosiect). Dim ond pedwar o'r prosiectau gwerthuso cyflym ac uwchraddio a oedd wedi cyflwyno adroddiadau gwerthuso, a dim ond dau o'r rhain a oedd yn cynnig gweithgarwch gwerthuso ystyrlon a chadarn ym marn y tîm adolygu.

2.12 Un o'r rhesymau allweddol dros y diffyg tystiolaeth gwerthuso oedd y ffaith fod y rhan fwyaf o'r prosiectau gweithredu cyflym ac uwchraddio yn dal i gael eu cyflawni adeg yr adolygiad, ac nid oeddent wedi cwblhau'r gweithgarwch gwerthuso (ac nid oedd ambell un wedi cychwyn arni). Roedd y diffyg gwerthusiad cyflawn ar lefel prosiect yn golygu taw cyfyngedig iawn oedd y dystiolaeth o'r math hwn mewn perthynas ag effeithiau a deilliannau gweithgarwch y prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy’r ETT. Mae hi’n anochel felly bod hyn wedi cyfyngu ar ein gallu i gyflwyno sylwadau ar yr agwedd hon o'r Rhaglen hyd yn hyn.

2.13 Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am Thema 4 (Partneriaethau Rhyngwladol ac â'r UE) ar gyfer y tîm adolygu, ac felly ni chyflawnwyd adolygiad o'r rhan yma o'r rhaglen ETT.

[3] Manyleb yr adolygiad. Tudalen 3.

## 3. Y Cyd-destun Strategol

3.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n edrych ar gyd-destun strategol y Rhaglen ETT. Mae adolygiad o waith y Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles, ac ymchwiliad dan arweiniad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a bennodd gyfres o argymhellion penodol ar gyfer Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru [ar y pryd], wedi bwydo'r bennod hon.

**Y Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles**

3.2 Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd y Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles[4] adroddiad a oedd yn cynnig argymhellion ar y cysylltiad rhwng y gwasanaeth iechyd a chreu cyfoeth yng Nghymru[5]. Cafodd y Bwrdd ei hun ei gychwyn gan Lywodraeth Cymru, ac roedd ei waith yn canolbwyntio ar gynyddu'r gwerth economaidd sy'n deillio o weithgarwch gofal iechyd yng Nghymru.

3.3 Yn benodol, roedd gwaith y Bwrdd yn canolbwyntio ar:

- Hwyluso a chynorthwyo gwaith ymchwil cymhwysol a throsglwyddo technoleg allan o'r GIG.
- Hwyluso a chynorthwyo gwaith caffael er mwyn cyflawni atebion arloesol mewn ymateb i anghenion a sialensiau, gan gynnwys mabwysiadu a lledaenu cynhyrchion, gwasanaethau ac arferion ar draws y system gofal iechyd trwy ddulliau mwy cyson.
- Datblygu iechyd cysylltiedig yng Nghymru, gan gynnwys eIechyd[6], mIechyd[7], data mawr a datblygu ecosystem sy'n hwyluso ac yn cynnal arloesedd a chysylltiadau â’r byd diwydiant.
- Gwneud y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru'n fwy hygyrch i ddiwydiant ac yn fwy agored i gydweithio a phartneriaethau â ffocws ar waith ymchwil ac arloesedd.

[4] Sefydlwyd y Bwrdd Arferion Gorau ym maes Iechyd a Lles yn 2012 gan Weinidog Llywodraeth Cymru dros Iechyd, Gwasanaethau a Phlant ar y pryd, Lesley Griffiths AC.
[5] Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles. Ffrwd Gwaith Gofal Cymdeithasol a Busnes y GIG Argymhellion ar Iechyd a Chyfoeth yng Nghymru. Hydref 2013.
[6] Arfer gofal iechyd a gynorthwyir gan brosesau electronig a chyfathrebu yw eIechyd. Ffynhonnell: Wikipedia.
[7] Talfyriad am iechyd symudol yw mHealth, a defnyddir yr ymadrodd ar gyfer yr arfer o ddarparu meddygaeth ac iechyd y cyhoedd gyda chymorth dyfeisiau symudol.

- Archwilio modelau cyflawni newydd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn arbennig trwy ddulliau cydgynorthwyol, cydweithredol a mentrau cymdeithasol[8].

3.4 Trwy ei waith, casglodd y Bwrdd dystiolaeth gan randdeiliaid o'r byd academaidd, byd busnes a meysydd clinigol, ac ymgysylltodd â nhw trwy alwad cyhoeddus am dystiolaeth, trafodaethau grŵp a gweithdai, a chyfarfodydd dwyochrog.

3.5 Yn ei adroddiad, pennodd y Bwrdd nifer o ganfyddiadau allweddol a oedd yn pennu'r cyd-destun strategol ar gyfer dylunio'r Rhaglen ETT a'i rhoi ar waith. Roedd y canfyddiadau hyn yn cynnwys:

- Bod gan y sector gofal iechyd y potensial i wneud cyfraniad mwy o lawer at hybu creu cyfoeth yng Nghymru.[9].
- Nid yw cefnogaeth Llywodraeth Cymru dros waith ymchwil, arloesedd a thwf busnes wedi ei gydlynu'n dda ar draws adrannau, ac nid yw'n ymgysylltu â'r GIG i'r un graddau ag y mae'n ei wneud mewn rhannau eraill o'r DU[10].
- Nid yw sefydliadau'r GIG yng Nghymru wedi gweithredu polisi cyson ar gyfer rheoli Eiddo Deallusol (IP), swyddogaethau trosglwyddo technoleg amlwg, na dulliau strwythuredig o fynd ati i ymgysylltu byd diwydiant. Nid oes yna fecanwaith i gynnal na chyflymu syniadau a dyfeisgarwch fel tystiolaeth o gysyniadau ac arddangos cymhwysol, nac o fasnacheiddio. Ar ben arall y llwybr arloesi, ar y cyfan, nid oes unrhyw ddull rheoledig na systemataidd o fynd ati i werthuso technoleg a'i fabwysiadu i mewn i'r GIG.[11]
- Rhaid i asesiadau a gwerthusiadau o dechnoleg eistedd ochr yn ochr â chaffael, ond ar wahân iddo. Mae prosesau caffael yn cael eu rheoli a'u rheoleiddio'n dynn, ond mae angen i arloesedd technolegol fod yn ystwyth ac yn anstrwythuredig, gan hyrwyddo cyd-gynhyrchu cynhyrchion a gwasanaethau newydd rhwng diwydiant a gweithwyr gofal iechyd, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion clinigol sydd heb ei diwallu, a gwella gwasanaethau gofal iechyd[12].

---

[8] Ibid. Tudalen 4.
[9] Ibid. Tudalen 7.
[10] Ibid. Tudalen 8.
[11] Ibid. Tudalen 9.
[12] Ibid. Tudalen 10.

- Mae yna gyfleoedd pwysig i system gofal iechyd Cymru ddod yn fwy ymatebol i'r byd busnes, ac i gydweithredu'n fwy effeithiol â diwydiant.[13].
- Dylai gwerth cyhoeddus gymryd uchafiaeth dros fuddiannau masnachol, gan gydnabod y gall fod yna 'densiwn' cynhenid 'rhwng gwerth cyhoeddus a masnachol mewn perthynas ag arloesi cydweithredol ym maes gofal iechyd'. Dylai'r sector cyhoeddus 'rannu'n tensiwn yma, yn hytrach na'i osgoi trwy gau ei ddrysau ar gydweithredu â phartneriaid masnachol'[14].

3.6 Yn ogystal, cyflwynodd yr adroddiad gyfres o argymhellion a oedd yn darparu'r cyd-destun polisi ar gyfer y Rhaglen ETT yn gyffredinol, ac ar gyfer nifer o'r prosiectau unigol sy'n cael ei hariannu drwyddi. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am:

- Fuddsoddi'n barhaus mewn e-iechyd a data perfformiad yng Nghymru.
- Sefydlu porth mabwysiadu technoleg pwrpasol ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru er mwyn helpu i glustnodi a mynd i'r afael ag amrywiadau rhwng sefydliadau, ymgysylltu â hybiau mabwysiadu technoleg ac arloesedd eraill ym maes gofal iechyd, bod yn 'ddrws blaen' ar gyfer mabwysiadu technoleg yng Nghymru, a hyrwyddo Cymru ar lwyfan ryngwladol fel lleoliad ar gyfer arloesi ym maes technoleg gofal iechyd.
- Amddiffyn cyllid ar gyfer mabwysiadu technoleg rhag gorfod cystadlu yn erbyn y pwysau pob dydd sydd ar adnoddau a rheolaeth.
- Sefydlu sefydliad trosglwyddo gwybodaeth hyd-braich oddi wrth y gwasanaethau gofal iechyd i arwain a chreu man canolog i ymgysylltu diwydiant ar draws y system gofal iechyd i gyd. Byddai hyn yn creu ffocws ar gyfer gwybodaeth a phrofiad, yn rheoli'r cydbwysedd rhwng buddiannau cyhoeddus a masnachol, ac yn eglurhau ac yn symleiddio rheolaeth dros eiddo deallusol.
- Sefydlu cronfa arloesedd gofal iechyd i gyflymu arloesedd technolegol. Dylai'r ffocws fod ar gyflymu datblygiad cynhyrchion a gwasanaethau, o egin y syniad nes iddynt ddenu buddsoddwyr masnachol.

[13] Ibid. Tudalen 11.
[14] Ibid. Tudalen 13.

- Cynorthwyo canolfannau rhagoriaeth i gefnogi arloesedd ym maes gofal iechyd yng Nghymru, a chysylltu gwasanaethau clinigol wrth waith ymchwil, addysgu a throsglwyddo gwybodaeth. Mae'r adroddiad yn enwi Canolfan Arloesi ym Maes Gwella Clwyfau Cymru fel 'prototeip' yn y cyd-destun hwn.

- Creu cyfrwng hyd-braich ar gyfer cymryd perchnogaeth dros is-gwmnïau sy’n arloesi ym maes gofal iechyd, a chreu 'lle i arloesi'. Dylai hyn fod â rhydd hynt 'i ymateb yn gyflym, i gydweithio â phartneriaid allanol, ac mewn rhai achosion, i gynhyrchu refeniw'[15].

3.7 Yn dilyn ymlaen o'r gwaith yma, cyhoeddodd y Bwrdd ei Adroddiad Terfynol yn Ionawr 2014. Roedd hyn yn pennu rhai o'r fframweithiau polisi lefel uwch sydd o bwys uniongyrchol i'w waith ei hun, yn ogystal â'r Rhaglen ETT. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Rhaglen Llywodraethu 2011, a oedd yn pennu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i wella bywydau pobl yng Nghymru trwy 'sicrhau bod pobl iach yn byw bywydau cynhyrchiol mewn economi mwy llewyrchus ac arloesol', ac yn benodol:
    - Cryfhau'r amodau a fydd yn galluogi byd busnes i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy.
    - Cynorthwyo cyflawniad gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion pobl yng Nghymru.
    - Gwella iechyd pawb a sicrhau llai o anghydraddoldebau o ran iechyd.
    - Gwasanaethau o safon uchel sy'n integredig, yn gynaliadwy, yn ddiogel, yn effeithiol, sy'n troi o gylch pobl ac sy'n adeiladu ar gryfderau pobl ac yn hyrwyddo eu lles [16].

- Law yn Llaw at Iechyd (2011) a oedd yn disgrifio’r sialensiau sy'n wynebu gofal iechyd ac yn pennu'r uchelgais y dylai pobl yng Nghymru allu cyrchu gwasanaethau sydd cystal â'r gorau yn y byd.[17].

- Arloesi (2014) a oedd yn pennu'r angen i hybu, hyrwyddo a hwyluso arloesi ar draws yr economi i gyd. Roedd adroddiad terfynol y Bwrdd yn nodi 'bod y system iechyd a gofal cymdeithasol yn rhan allweddol o'r dull hwn o fynd ati sy'n cyd-fynd yn agos â'r gefnogaeth dros ymchwil a datblygu a ddarperir trwy'r

---

[15] Ibid. Tudalennau 14-21.
[16] Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles. Yr Adroddiad Terfynol. Ionawr 2016. Tudalen 6.
[17] Ibid.

Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR)[18].

3.8 Roedd adroddiad terfynol y Bwrdd yn cynnig cyfres o argymhellion a oedd, yn yr un modd â'r gwaith cynharach ar iechyd a chyfoeth, yn pennu'r cyd-destun strategol ar gyfer dylunio a datblygu'r Rhaglen ETT. Yn benodol, roedd y Bwrdd yn argymell:

- Bod angen symud i gyfeiriad newid yn seiliedig ar wybodaeth, gan gynnwys rhannu data mewn ffordd briodol a diogel ar draws ffiniau sefydliadol a sectoraidd.
- Y dylid cyflawni gwaith i ganolbwyntio ar, a chlustnodi arloesedd mewn lleoliadau cymunedol, ac y dylid defnyddio'r gwaith fel sylfaen wrth ystyried y model mwyaf priodol er mwyn sicrhau bod y syniadaeth yn lledaenu ar draws yr holl wasanaethau gofal cymunedol.
- Y dylai Llywodraeth Cymru ddisgwyl i sefydliadau sefydlu rhaglen barhaus o ddadfuddsoddi yn y gwasanaethau hynny nad ydynt yn adlewyrchu sylfaen dystiolaeth gyfoes mwyach.
- Bod Llywodraeth Cymru'n datblygu gweledigaeth glir ar gyfer system arloesi mewn gofal iechyd sy'n mynd ati'n systemataidd i droi potensial yn ddeilliannau, gyda ffocws clir ar fynd i'r afael â meysydd o angen trwy ymchwil, ffrwyno arloesedd yn y rheng flaen o'r gwaith o ddarparu gofal iechyd, a throsi syniadau, dyfeisgarwch a darganfod yn fanteision ymarferol ar gyfer cleifion, ac yn wasanaethau gofal iechyd mwy effeithlon. Mae'r ffactorau hanfodol yn hyn o beth yn cynnwys mynegiant clir o ran sut mae deilliannau iechyd a chyfoeth yn gysylltiedig â'i gilydd, a chynnydd sylweddol mewn cydweithio â diwydiant.
- Y dylai'r cynlluniau peilot sy'n cael eu defnyddio i bwyso a mesur atebion ystyried a chynnwys y potensial i uwchraddio gwelliannau yn benodol[19].

[18] Ibid. Tudalen 7. Dylid nodi taw Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yw NISCHR erbyn hyn.
[19] Ibid. Tudalennau 14-16.

**Ymchwiliad Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru**

3.9 Ym mis Rhagfyr 2014, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad adroddiad ar ei ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru[20]. Amlinellodd yr adroddiad bod 'llawer o ddatblygiadau arloesol yn y dyfodol ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn perthyn i faes technolegau meddygol a chynorthwyol ond erys yn bwnc nad yw'n cael fawr ddim sylw'. O ganlyniad, 'roedd y pwyllgor yn awyddus i daflu goleuni ar y prosesau sy'n bodoli yng Nghymru i gael gafael ar dechnolegau meddygol, ac ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i'r maes datblygu pwysig hwn'[21].

3.10 Roedd yr argymhellion penodol a wnaeth y Pwyllgor sy'n berthnasol i'r Rhaglen ETT yn cynnwys y dylai'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

- Ddatblygu dull mwy strategol, cydgysylltiedig a syml o fabwysiadu technoleg feddygol. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am flaenoriaethu buddsoddiad mewn technolegau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Datblygu a sefydlu dull mwy strategol o fynd ati i gomisiynu technolegau meddygol newydd yng Nghymru a chysylltu hyn â phroses fantoli a gwerthuso gadarn.
- Nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod strwythurau ariannol GIG Cymru a'i brosesau cyllidebu yn gallu cefnogi'r gwaith o fabwysiadu technoleg feddygol briodol yn effeithiol, ynghyd ♂'r amserlenni cysylltiedig. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at gynllunio tymor hwy, a sicrhau bod cyllid cyfalaf a refeniw yn alinio'n well[22].

**Crynodeb**

3.11 I grynhoi, mae'r gwaith a gyflawnwyd gan y Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles a Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu cyd-destun polisi clir ar gyfer y Rhaglen ETT a'r gweithgarwch prosiect y mae'r rhaglen wedi ei ariannu hyd yn hyn.

---

[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru. Rhagfyr 2014.
[21] Ibid. Tudalen 10.
[22] Ibid. Tudalennau 7, 8 a 9.

# 4. Saernïaeth y Rhaglen ETT

4.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried nod ac amcanion y Rhaglen ETT, ei dyluniad a'i strwythur. Yn niffyg dogfen manyleb ar gyfer y rhaglen, mae'r bennod hon yn tynnu ar y wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru am y Rhaglen ETT ym manyleb y gwerthusiad, gwybodaeth sydd wedi ei chyhoeddi ar lein, a'r sleidiau a ddefnyddiodd dîm y Rhaglen ETT wrth gyflwyno dull Llywodraeth Cymru a GIG Cymru o fynd ati i fabwysiadu arloesedd a thechnoleg yng Nghymru.

**Nod lefel rhaglen a'r strwythur thematig**

4.2 Nod cyffredinol y Rhaglen ETT yw cyflymu'r gwaith o arddangos, gwerthuso a mabwysiadu cynhyrchion a gwasanaethau newydd a'u rhoi ar waith, cynyddu effeithlonrwydd a darparu gwell deilliannau ar gyfer cleifion yn unol ag egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus[23].

4.3 Bwriedir hefyd i'r Rhaglen ETT annog a chynorthwyo'r GIG i gynyddu lefelau gweithgarwch arloesi (sef trosglwyddo technoleg yn bennaf) a chynyddu ei ymgysylltiad â phartneriaid allanol (yn enwedig byd diwydiant a phrifysgolion).

4.4 Mae'r Rhaglen ETT wedi ei strwythuro o gylch pedair thema cyflawni, sef:

- **Mabwysiadu technoleg** gan ddyfarnu cyllid i sefydliadau GIG Cymru trwy broses ymgeisio ar sail galwad agored. Mae'r elfen hon o'r rhaglen yn helpu i werthuso cynhyrchion a gwasanaethau technoleg newydd addawol yn gyflym a'u huwchraddio. Yn ogystal, mae'n darparu cyllid trwy Gomisiwn Bevan i gynorthwyo rhaglen o ymgysylltiad dan arweiniad y GIG a diwydiant trwy gynllun Prosiectau Technoleg Enghreifftiol Bevan, a chyllid i helpu i sefydlu Hyb ar gyfer Mabwysiadu Technoleg Cenedlaethol (a elwir yn 'Technoleg Iechyd Cymru') i gydlynu'r gwaith o glustnodi a gwerthuso technolegau newydd.
- **Datblygu technoleg** sy'n ariannu nifer o brosiectau a reolir yn uniongyrchol (h.y. sy'n cael eu datblygu trwy ddialog gyda Llywodraeth Cymru yn hytrach na'u hariannu mewn ymateb i geisiadau ar sail proses galwadau agored y Gronfa ETT) sy'n cynorthwyo datblygiad technoleg, gan gynnwys caffael yn seiliedig ar her y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a rheoli a masnacheiddio Eiddo Deallusol (IP).

[23] Ffynhonnell: Manyleb y Gwerthusiad. Tudalen 2. Dylid nodi y diffinnir Gofal Iechyd Darbodus fel 'gofal iechyd sy'n cael ei feithrin, ei reoli a'i ddarparu mewn ffordd bwyllog a doeth, wedi ei nodweddu gan ragofal, gwyliadwraeth a chyllidebu gofalus sy'n cyflawni manteision gwirioneddol a deilliannau o ansawdd ar gyfer y cleifion'. Ffynhonnell: Comisiwn Bevan.


- **Arloesi ac ymgysylltu byd diwydiant** sy'n ariannu nifer o brosiectau a reolir yn uniongyrchol gyda'r nod o gynorthwyo rhwydweithiau arloesi a chanolfannau arloesi. O dan y thema hon, mae yna ffocws ar ymgysylltiad strwythuredig â diwydiant, ac yn enwedig cydweithio â ffocws ar ddeilliannau a gwelliannau ym maes gofal iechyd.
- **Partneriaethau rhyngwladol ac â'r UE** sy'n ariannu prosiectau sy’n cael eu rheoli’n uniongyrchol sy'n cynorthwyo'r GIG i ymgysylltu â phartneriaid rhyngwladol.

4.5 Disgwylir i brosiectau unigol adrodd yn erbyn targedau a byddwn ni'n delio â materion o gylch natur, penodolrwydd a gwerth y targedau hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw dargedau lefel perfformiad/allbwn nac effaith/deilliant penodol gan y Rhaglen ETT. Gofynnwyd i ni gyflwyno argymhellion o ran beth y gellid ei fesur yn gyson ar draws y prosiectau, a chamau eraill a allai gynorthwyo gwerthusiad o effaith y Rhaglen ETT y tymor hwy, a nodir y rhain isod.

4.6 Disgwylir i brosiectau gyfrannu hefyd at Rwydwaith Technoleg Iechyd wedi ei drefnu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Rhwydwaith yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn tynnu prosiectau a ariennir trwy’r ETT at ei gilydd i rannu arferion gorau ac i ddysgu gan fentrau eraill (e.e. trwy gyflwyniadau gan y bobl sy'n llunio polisïau ac ymarferwyr sy'n gysylltiedig â thechnoleg gofal iechyd ac arloesedd mewn gwledydd eraill). Disgwylir i brosiectau a ariennir trwy'r ETT gymryd rhan mewn achlysuron rhwydweithio (mae hyn yn amod yn y llythyrau sy’n dyfarnu’r grantiau iddynt) a dangos eu gweithgareddau prosiect a'r ddysg sy'n deillio ohonynt.

4.7 Mae Ffigur 4.1 yn cynnig gorolwg sgematig o sut mae'r Rhaglen ETT yn gweithredu.

**Ffigur 4.1: Trosolwg o saernïaeth y Rhaglen ETT**




Ffynhonnell: OB3 Research

**Y trefniadau rheoli ac arolygu**

4.8 Mae'r Rhaglen ETT yn cael ei rheoli gan dîm bach (tri swyddog) yng nghyfadran Technoleg, Arloesedd a Strategaeth Gofal Iechyd y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSSG).

4.9 Mae'r Rhaglen yn cael cymorth hefyd gan Fwrdd o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Newid Digidol ac Arloesedd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys uwch swyddogion o HSSG, a'r adran Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol (ESNR). Mae'r Bwrdd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i adolygu cynnydd ac mae ei gylch gwaith yn cynnwys sicrhau bod y prosiectau a ariennir yn cael effaith fesuradwy ar werth gofal iechyd yng Nghymru'[24].

4.10 Cylch gorchwyl penodol y Bwrdd yw:

- Darparu cyngor ar faterion y mae'r cadeirydd yn eu codi.
- Clustnodi risgiau i gyflawniad llwyddiannus prosiectau, a cheisio sicrhau y cymerir camau lliniaru priodol.

[24] Cylch Gorchwyl Bwrdd y Rhaglen ETT.

- Ystyried pa mor ddigonol yw'r adnoddau a'r capasiti sydd ar gael i'r Rhaglen.
- Sicrhau y cymerir cyfleoedd i gyfrannu at gynllun cyfathrebu HSSG.
- Sicrhau bod y rhaglen yn cyd-fynd â rhaglenni eraill ar draws y grŵp HSS a'r llywodraeth[25].

**Trosolwg o'r prosiectau a ariannwyd trwy'r Rhaglen ETT (Blwyddyn ariannol 2016/17)**

*Thema 1: Mabwysiadu Technoleg*

4.11 Yn hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru alwad am geisiadau i'r Gronfa ETT (o dan Thema 1 o'r Rhaglen ETT). Roedd y broses yn galw am gyflwyno ffurflen gais fer (roedd y canllawiau'n esbonio na ddylai ffurflenni fod yn fwy na phedair tudalen). Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i gael cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 oedd 30 Hydref 2015.

4.12 Roedd y galwad am gynigion yn nodi y byddai'r Gronfa ETT yn 'cefnogi buddsoddiad yn y defnydd o dechnoleg i gyflawni gwell iechyd a gofal am bris llai'. Roedd yn dweud hefyd bod y Gronfa 'yn anelu at fwydo mabwysiadu cyflym ar dechnoleg arloesol a fydd yn sicrhau gwelliant sylweddol a mesuradwy yn effeithlonrwydd y ffordd y darperir gwasanaethau gofal iechyd'[26]. Er mwyn cyflawni hyn, esboniodd Llywodraeth Cymru yn ei chanllawiau y byddai'r Gronfa'n cynorthwyo dau fath o brosiectau:

- **Prosiectau gwerthuso cyflym** a fyddai'n 'brawf ymarferol o ran a fydd cynnyrch neu wasanaeth newydd, neu un sydd wedi cael ei wella'n sylweddol, yn cyflawni'r gwelliannau disgwyliedig o ran darbodaeth ac a ellir ei fabwysiadu ar garlam.' Bydd gan brosiectau Gwerthuso Cyflym werth sydd rhwng £50,000 a £200,000. Rhaid iddynt gael eu cyflawni dros gyfnod o ddim mwy na naw mis, ac mae hynny'n cynnwys paratoi adroddiad ar ei effaith ar effeithlonrwydd yn erbyn y mesuriadau gwaelodlin a bennwyd cyn y prosiect.
- **Prosiectau uwchraddio** a fyddai'n 'uwchraddio gwelliannau mawr eu heffaith i lefel ranbarthol neu genedlaethol, gan gynnwys y rhai sydd eisoes wedi cael cefnogaeth fel prosiectau Gwerthuso Cyflym'. Bydd gan brosiectau uwchraddio 'werth i £200,000 neu ragor. Rhaid eu cyflawni dros gyfnod o hyd at dair

[25] Ibid.
[26] Ffynhonnell: Canllawiau ar gyflwyno ceisiadau a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn rhan o ffurflen gais yr ETTF. Tudalen 3 o 7.

blynedd, a rhaid iddynt gynnwys adroddiadau rheolaidd ar yr effaith ar effeithlonrwydd yn erbyn y mesuriadau gwaelodlin a bennwyd cyn y prosiect'[27].

4.13 Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyflwyno ceisiadau'n esbonio hefyd bod 'y Gronfa yn agored i'r holl Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau a gwasanaethau a gynhelir yng Nghymru. Caiff prosiectau eu dethol a'u blaenoriaethu yn erbyn meini prawf wedi eu pwysoli. Rhyddheir cyllid i brosiectau trwy lythyr cynnig grant a thaliadau adolygol chwarterol yn erbyn gwariant ar y prosiect.' Nododd y canllawiau hefyd y bydd 'angen i brosiectau gyflwyno adroddiad chwarterol i gyd-fynd â phob hawliad, gan ddarparu manylion am gynnydd a'r manteision a gyflawnwyd hyd yn hyn'[28].

4.14 Cafodd y meini prawf ar gyfer gwerthuso prosiectau eu pwysoli fel a ganlyn:

- Effaith [50 y cant] – y gwelliannau a fwriedir o ran effeithlonrwydd a deilliannau gofal iechyd.
- Cyflymdra [20 y cant] – cyflymdra a/neu'r sicrwydd o gyflawni'r gwelliant.
- Addasrwydd Strategol [20 y cant] – aliniad y prosiect â gofal iechyd darbodus a chynlluniau integredig tymor canolig.
- Fforddiadwyedd [10 y cant] – y cyllid a'r adnoddau a neilltuwyd i ategu cymorth y Gronfa[29].

4.15 Cafodd cyfanswm o 42 o brosiectau o restr o 110 i geisiadau eu cymeradwyo ar gyfer cylch 2016/17 y Gronfa ETT. Prosiectau gwerthuso cyflym oedd 22 o'r prosiectau a gymeradwywyd ac roedd 20 yn brosiectau uwchraddio. Yn nhermau cyllidebau, roedd y prosiectau'n amrywio o ran maint o £50k i £3m. Mae rhestr o'r 42 prosiect a gymeradwywyd yn Atodiad B.

4.16 Yn ogystal â'r 42 o brosiectau ETTF, ariannwyd yr Hyb Mabwysiadu Technoleg Cenedlaethol o dan Thema 1 o'r Rhaglen ETT. Cyflwynodd partneriaeth o sefydliadau [30] Fynegiant o Ddiddordeb (EoI) i Lywodraeth Cymru ar 23 Chwefror 2016 mewn ymateb i alwad i sefydlu Hyb Mabwysiadu Technoleg Cenedlaethol.

[27] Ibid.
[28] Ibid.
[29] Ibid.
[30] Roedd y bartneriaeth yn cynnwys CEDAR (canolfan werthuso'r GIG sy'n cyflawni gwaith ymchwil i dechnolegau iechyd newydd), Partneriaeth Iechyd a Gwyddoniaeth Academaidd De-ddwyrain Cymru, Canolfan Economeg Iechyd Abertawe a'r Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol.

Cymeradwywyd y prosiect, a dyfarnwyd cyllid o hyd at £1,750,000 (ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2016 i Fawrth 2018)[31] ar ei gyfer.

4.17 Nododd yr EoI taw amcanion yr Hyb fyddai:

- Sefydlu dull cenedlaethol symlach, sy'n cael ei arwain yn dda, sydd o ansawdd uchel ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fynd ati i fabwysiadu technoleg feddygol.
- Hyrwyddo mynediad teg at dechnolegau ledled Cymru.
- Cynhyrchu canllawiau ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiad mewn technoleg ochr yn ochr â strategaeth ddatgomisiynu gyda'r Comisiynwyr.
- Datblygu mecanwaith gwerthuso eglur a chadarn.
- Hyrwyddo systemau cyson ar gyfer derbyn technolegau newydd.
- Cydgysylltu â sefydliadau blaenllaw ym mhedwar ban y byd sy'n datrys problemau tebyg er mwyn sicrhau effeithlonrwydd.
- Gweithio'n agored mewn ymgynghoriad â'r holl randdeilaid er mwyn sicrhau bod technolegau effeithiol yn cael eu mabwysiadu, monitro deilliannau a sefydlu mecanweithiau adborth er mwyn sicrhau bod y gwelliannau a ddisgwylir yn cael eu cyflawni. [32].

4.18 Mae'r gweithgareddau penodol i'w cyflawni gan yr Hyb yn cynnwys:

- Darparu fframwaith y gall prosiectau unigol lifo drwyddo.
- Chwilio am, ac adolygu arferion gorau cyfredol ac effaith bosibl technolegau newydd ar y llwybrau i gleifion.
- Cyflawni a chomisiynu profion ac asesiadau ar gyfer y GIG, gan sicrhau bod y wybodaeth yma'n ddigonol er mwyn hwyluso'r gwaith o gaffael a defnyddio dyfeisiau a thechnolegau.
- Cyflawni a chomisiynu gwerthusiadau o dystiolaeth ac asesiadau economeg iechyd, a defnyddio'r wybodaeth yna i fwydo polisïau ac arferion ym maes dyfeisiau a thechnoleg meddygol[33].

4.19 Cafodd Rhaglen Prosiectau Enghreifftiol Bevan ddyfarniad o £250,000 o dan Thema 1 o'r Rhaglen ETT ar 23 Mawrth 2016, a rhaid hawlio'r cyllid cyn diwedd Mehefin 2017. Dyrannwyd £115k o'r gyllideb ‘i weinyddu a rheoli carfannau

[31] Ffynhonnell: Llythyr Cymeradwyo Grant Ymddiriedolaeth GIG Felindre.
[32] EoI, Hyb Mabwysiadu Technoleg Cenedlaethol Cymru. Tudalennau 2 a 3.
[33] Ibid. Tudalen 4.

technoleg gofal iechyd enghreifftiol rhaglen Prosiectau Enghreifftiol Bevan', a defnyddir y £135k sy'n weddill 'i ariannu'r garfan gyntaf o 18 o brosiectau technoleg iechyd enghreifftiol ar lefel o £7.5k y prosiect'[34].

4.20 Nod rhaglen Prosiectau Enghreifftiol Bevan yw:

- Gwella dulliau o weithredu yn GIG Cymru, datrys problemau iechyd a gwella deilliannau iechyd.
- Darparu mecanwaith i gyflymu'r gwaith o uwchraddio a mabwysiadu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg iechyd arloesol ar raddfa eang.
- Sbarduno symudiad cymdeithasol ar gyfer newid yn y GIG yng Nghymru, gan hyrwyddo mabwysiadu a chymhwyso egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus yn helaeth ym mhob agwedd ar ddarparu gofal iechyd[35].

4.21 Yn 2016, cymeradwyodd Comisiwn Bevan 25 o brosiectau enghreifftiol ar draws dwy garfan o geisiadau (17 prosiect o dan garfan 1 ac wyth o dan garfan 2). Mae esiamplau o'r prosiectau a gynorthwywyd i'w gweld ar wefan Comisiwn Bevan[36].

*Thema 2: Datblygu Technoleg*

4.22 Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyllid (o dan Thema 2 o'r Rhaglen ETT) i Brifysgol Abertawe ar 21 Mawrth 2016 i ariannu'r prosiect AgorED. Erbyn hyn, gelwir y prosiect AgorED yn SHIPP (Rhaglen Partneriaeth Arloesi Gofal Iechyd Abertawe) ac mae hi wedi esblygu ac wedi datblygu i greu'r prosiect AgorIP (Platfform Arloesi Agored Mynediad Agored) sydd wedi diogelu Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd[37].

4.23 Yn ei hanfod, roedd y prosiect AgorED/SHIPP yn defnyddio cyllid y Rhaglen ETT i ategu'r cyllid ar gyfer cynllun peilot 'â'r nod o ddarparu tystiolaeth o ariannu cysyniadau arloesol ym maes gofal iechyd'[38].

4.24 Cyd-destun a phwrpas y prosiect AgorED/SHIPP oedd:

- Gwahodd ceisiadau am gyllid SHIPP gan 'academyddion ym Mhrifysgol Abertawe' a staff mewn unrhyw Fwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru'.

---

[34] Ffynhonnell: Llythyr Dyfarnu Grant Cyfarwyddwr Academi Bevan dan nawdd Prifysgol Abertawe.
[35] Ffynhonnell: Adroddiad ar Gynnydd Prosiectau Enghreifftiol Technoleg Iechyd Bevan Ebrill - Hydref 2016. Tudalen 2.
[36] Gweler: http://www.bevancommission.org/health-technology-exemplars
[37] Gweler: http://www.swansea.ac.uk/ils/agorip/
[38] Ffynhonnell: Adroddiad Interim SHIPP. Ar gyfer y cyfnod Ebrill - Awst 2016. Medi 2016

- Darparu cyllid gwerth 'rhwng £5,000 a £50,000 yn dibynnu ar natur y prosiect' gyda'r 'ceisiadau cychwynnol yn cael eu hasesu gan aelodau o Adran Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi Prifysgol Abertawe (REIS)'.
- Dilysu’n annibynnol prosiectau sy'n cyrraedd y rhestr fer trwy banel ymgynghorol arbenigol o reolwyr cyfalaf mentro profiadol iawn ac arbenigwyr IP.
- Dethol y prosiectau i'w datblygu ymhellach yn seiliedig ar eu heffaith bosibl ar ofal iechyd yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Bwriadwyd gwerthuso potensial masnachol yr arloesedd sydd wrth wraidd prosiectau lle'r oedd hynny'n briodol hefyd. Y Panel Ymgynghorol Arbenigol fyddai'n beirniadu ar yr agweddau hyn.
- Penododd Prifysgol Abertawe Reolwr Rhaglenni i oruchwylio'r fenter SHIPP[39].

4.25 Daeth y Panel Ymgynghorol Arbenigol a grëwyd ar gyfer y prosiect at ei gilydd ar 13 Mehefin 2016, a chymeradwywyd prosiectau canlynol i'w datblygu ymhellach o dan gam AgorIP y prosiect a ariannwyd trwy'r ERDF:

- ER positive[40], sef Offeryn Diagnostig ar gyfer Canser y Fron yn seiliedig ar Dechnoleg Tagio LC-MS[41].
- Datblygiad ap anhwylderau bwyta.
- Offeryn Diagnostig sy'n Seiliedig ar Graffen i Ddatgelu Haint.
- Offeryn Diagnostig Canser y Colon a'r Rhefr yn seiliedig ar Sbectroscopi Raman.
- Dilysiad Economeg Iechyd ar CAREMORE,[42] y Fframwaith Comisiynu[43].

*Thema 3: Arloesi ac Ymgysylltu Diwydiant*

4.26 O dan Thema 3 o'r Rhaglen ETT, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru drefniant ariannu craidd gwerth £1,050,000 am y cyfnod rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2018 ar gyfer Canolfan Arloesi ym Maes Gwella Clwyfau Cymru (WWIC) sy'n rhan o Brifysgol Caerdydd.

---

[39] Ibid. Tudalen 4.
[40] Math o ganser y fron yw Estrogen receptor-positive.
[41] Techneg cemegol dadansoddol yw spectrometreg mas-cromatograffeg hylifol (LC-MS) sy'n cyfuno galluoedd gwahanu ffisegol cromatograffeg hylifol (neu HPLC) â galluoedd dadansoddi spectrometreg mas (MS). Ffynhonnell: Wikpiedia.
[42] Safonau gofal, gweithgarwch, cwmpasu adnoddau, modelau gofal, trefniadau gweithredol, adolygu a gwerthuso.
[43] Adroddiad Interim SHIPP. Ar gyfer y cyfnod Ebrill - Awst 2016. Medi 2016 Tudalen 10.

4.27 Hyb ymchwil yw WWIC sy'n mynd i'r afael ag 'epidemig tawel' gofal clwyfau. Ffocws allweddol yng ngwaith y Ganolfan yw ‘dod o hyd i ffyrdd newydd o drin ac atal clwyfau sy'n anodd eu hiacháu' gyda golwg ar 'gwtogi ar gost gofalu am glwyfau i'r GIG trwy leihau derbyniadau i ysbytai ac atal oedi’[44].

4.28 Roedd y llythyr dyfarnu grant (dyddiedig 21 Mawrth 2016) yn esbonio taw pwrpas y cyllid a ddyfarnwyd trwy'r Rhaglen ETT oedd 'cynorthwyo gweithgareddau a datblygiad parhaus y WWIC yn unol ag amcanion Welsh Wound Innovation Ltd ac fel y’i bennwyd yng nghynllun gweithredol WWIC’[45].

**Canfyddiadau'r Rhanddeiliaid - Dyluniad y Rhaglen**

4.29 Roedd yna gytundeb unfrydol ymysg rhanddeiliaid ac arweinwyr y prosiectau bod y GIG yng Nghymru ar ei hôl hi yn nhermau mabwysiadu technoleg, a bod yna angen a rhesymeg clir dros fodolaeth y Rhaglen ETT a buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn symleiddio’r prosesau ar gyfer mabwysiadu technoleg.

‘Nid oes gan y GIG hanes o fuddsoddi yn y pethau arloesol yma mewn gwirionedd’. (Ymgeisydd am Brosiect)

‘Mae hi'n hollol briodol y dylai Llywodraeth Cymru fod yn buddsoddi mewn ymateb i'r sialens hon. Mae hi'n mynd i'r afael â diffyg sylweddol’. (Aelod o Fwrdd y Rhaglen)

4.30 Roedd yna gytundeb eang hefyd ei bod hi'n hollol briodol cadw'r Rhaglen ETT, ac yn arbennig Cronfa'r ETT ar wahân, a'u 'hamddiffyn' wrth gyllidebau prif ffrwd y GIG. Dadleuodd y rhanddeiliaid bod yna berygl go iawn y byddai'r cyllid a fwriadwyd ar gyfer mabwysiadu technoleg yn cael ei ailddyrannu i ymateb i bwysau parhaus ar gyllidebau fel arall.

4.31 Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo hefyd bod paramedrau'r Rhaglen ETT h.y. buddsoddi mewn technoleg ac arloesedd ar draws amrywiaeth eang o themâu a meysydd heb fod yn or-gyfarwyddol, yn briodol. Roedd hyn wedi creu cymysgedd a chydbwysedd priodol o brosiectau i’w hariannu (gan gwmpasu arloesedd clinigol a gweinyddol), roedd yn cyd-fynd yn dda â nodau lefel uchel y Rhaglen, ag argymhellion y Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesedd Iechyd a Lles, ac ag ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad.

[44] Ffynhonnell: Tudalennau Canolfan Arloesi ym Maes Gwella Clwyfau Cymru ar wefan Prifysgol Caerdydd.
[45] Llythyr cynnig grant. Atodiad 1, Tudalen 12.

4.32 Roedd sawl un o'r rhanddeiliaid ac arweinwyr y prosiectau'n dadlau hefyd bod Llywodraeth Cymru'n dangos 'dealltwriaeth glir o sut y mae arloesedd yn gweithio go iawn' trwy ymgorffori goddefiant cynhenid o risg - gan gydnabod na fyddai pob prosiect (ac yn enwedig y rhai gwerthuso cyflym) yn llwyddiannus. Dadleuodd yr un rhanddeiliaid ac arweinwyr prosiect y gallai'r hyn a ddysgir o brosiectau aflwyddiannus fod yr un mor bwysig (â'r prosiectau llwyddiannus) yn nhermau osgoi gwastraff ymdrech, a symud i gyfeiriad datgomisiynu technolegau neu arferion aneffeithiol.

4.33 Ar y cyfan, roedd y rhanddeiliaid (ac yn enwedig y rhai a oedd ynghlwm wrth Fwrdd y Rhaglen) yn teimlo, ar gydbwysedd, y byddai dogfen fanyleb i'r rhaglen, sy'n pennu'r nodau, yr amcanion a'r deilliannau dymunol yn gliriach, yn fanteisiol iawn. Wedi dweud hynny, roedd sawl un o'r rhanddeiliaid yn dadlau na ddylai'r agweddau cadarnhaol ar y Rhaglen ETT gael eu ffrwyno trwy gynllun o'r fath. Yn benodol, roedden nhw'n awyddus iawn y dylai'r Rhaglen gadw ei ffocws ar gyflymdra (yn nhermau'r broses o asesu a chymeradwyo cyllid, ond hefyd wrth gyflawni prosiectau) ac y dylai aros yn ddigon 'chwim' i gefnogi syniadau gwirioneddol arloesol.

'Rhaid i'r Rhaglen ETT fod ychydig bach yn wahanol. Rhaid iddi fod yn oportiwnistaidd o ran ei golygon. Rhaid iddi fod yn gallu mynd gyda natur y syniadau a gyflwynir'. (Aelod o Fwrdd y Rhaglen)

4.34 Dadleuodd rhanddeiliaid eraill, er bod y cysyniad yn un cadarn, bod angen eglurder pellach o ran sut y mae'r Rhaglen ETT yn cyd-fynd â (ac yn osgoi dyblygu) mentrau eraill Llywodraeth Cymru, fel y Gronfa Arloesi i Arbed a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn ddiweddar, â'r nod o 'brototeipio, profi a datblygu newidiadau cymhleth ac arloesol i'r dulliau o ddarparu gwasanaethau'[46][47]. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am sicrhau bod gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru'n hollol ymwybodol o fentrau sydd â'r nod o ddefnyddio arloesedd a thechnoleg i sbarduno darbodaeth a gwelliannau wrth gyflwyno gwasanaethau, ac am sicrhau bod yna lefel briodol o gydlynu 'Llywodraeth-eang'. Yn y cyd-destun hwn, rhoddodd un o'r rhanddeiliaid glod i dîm y Rhaglen ETT am fod 'yn agored iawn ac yn hawdd gweithio gyda nhw' yn nhermau rhannu a chyfleu gwybodaeth am y Rhaglen ei hun. Awgrymodd y

[46] Ffynhonnell: Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru. Lansio'r Gronfa Arloesi i Arbed newydd. 17 Chwefror 2017.

[47] Dylid nodi bod y Dirprwy Gyfarwyddwr dros Arloesi mewn Gofal Iechyd wedi cyfrannu'r hyn a ddysgwyd o'r Rhaglen ETT i ddyluniad Arloesi i Arbed, ac mae'n aelod o banel gwerthuso Arloesi i Arbed sy'n helpu i sicrhau bod yna synergedd priodol rhwng y ddwy fenter.

gallai cronfeydd, rhaglenni a mentrau mewnol eraill (h.y. Llywodraeth Cymru) ddysgu o'u dull o fynd ati.


**Rhesymeg y Rhaglen**

4.35 Mewn adolygiad gwerthuso o'r math hwn, mae egluro model rhesymeg sy'n pennu'r cyd-destun ar gyfer beth y mae'r rhaglen yn bwriadu ei gyflawni yn arfer da.

4.36 Er y bu modd i ni baratoi model rhesymeg ar gyfer y Rhaglen ETT (Ffigur 4.2), mae'r ffaith nad oes dogfen manyleb fanwl na chynllun busnes ar gyfer y rhaglen, ac nad oes dangosyddion lefel rhaglen a thargedau cysylltiedig, yn golygu bod hyn yn llai manwl ac yn fwy 'cyffredinol' nag y byddem yn ei ddisgwyl gyda rhaglen o'r natur hon.

4.37 Paratowyd y model rhesymeg yn Ffigur 4.2 yn seiliedig ar y cyd-destun polisi a bennwyd uchod, ac ar drafodaethau gyda thîm y rhaglen ETT. Roedd hi'n glir bod y tîm bychan sy'n goruchwylio'r Rhaglen ETT yn rhannu’r un model ymhlyg ar gyfer y rhaglen, sy'n cwmpasu anghenion, nodau, gweithgarwch ac effeithiau, a bu modd iddynt gyfleu hyn i ni ac i Fwrdd y Rhaglen. Rydyn ni'n deall bod y model hwn wedi cael ei gywreinio dros 18-24 mis cyntaf y rhaglen, gan ddysgu o brofiad o’r rhaglen. Fodd bynnag, mae'r tîm yn cydnabod bod gan y dull ymhlyg a llai ffurfiol hwn ei anfanteision, yn enwedig am nad yw'n darparu gwaelodlin neu bwynt cyfeirio sefydlog o fath a fyddai’n cydweddu i fanyleb ysgrifenedig, ac felly gallai fod yn destun diwygiadau adolygol ac atgofion dethol. Gallai'r diffyg manyleb a model rhesymeg penodol ar gyfer y rhaglen fod yn fwy o risg pe bai unrhyw aelod o'r tîm prosiect bychan (neu bob un) yn cael ei ddargyfeirio i weithgareddau eraill, am y byddai pontio’r trosglwyddiad i bersonél newydd yn fwy ymestynnol o lawer.

**Ffigur 4.2: Model Rhesymeg y Rhaglen ETT**




Ffynhonnell: OB3 Research

## 5. Gweithrediad

5.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n archwilio'r dystiolaeth mewn perthynas â gweithrediad ac effeithiolrwydd darpariaeth y Rhaglen ETT hyd yn hyn. Mae'r bennod hon yn tynnu ar dystiolaeth o'r cyfweliadau manwl a gyflawnwyd gydag wyth o brosiectau ETT, tystiolaeth o'r ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, ac adolygiad o ddeunyddiau lefel prosiect.

**Gweithrediad ac Effeithiolrwydd - Canfyddiadau'r Rhanddeiliaid**

*Y Broses Ymgeisio ac Asesu*

5.2 Fel  nodwyd eisoes, roedd y rhanddeiliaid yn gefnogol iawn ar y cyfan o'r cysyniad y Rhaglen ETT ac o'r rhesymeg a oedd y tu ôl i ymyrraeth Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Fodd bynnag, clustnodwyd nifer o bwyntiau dysgu ganddynt, a darparwyd adborth adeiladol mewn perthynas â'r materion allweddol o ran gweithrediad.

5.3 Er yr ystyrir bod y ffurflen gais (ar gyfer Thema 1, cyllid gwerthuso cyflym ac uwchraddio) yn addas at y pwrpas ar y cyfan, ac er bod y ffaith ei bod yn gryno'n beth da, codwyd nifer o bwyntiau ehangach mewn perthynas â'r broses ymgeisio ei hun.  Roedd nifer o randdeiliaid ac ymgeiswyr am brosiectau'n teimlo bod y broses o wneud cais yn golygu rhyw lefel o wastraff ymdrech o ran yr ymgeiswyr ac o ran Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn deillio o'r ffaith y bu rhyw 38 y cant o'r ymgeiswyr ar gyfer carfan blwyddyn ariannol 2016/17[48] yn llwyddiannus. Roedd sawl un o'r rhanddeiliaid yn teimlo bod hyn yn groes i un o nodau cyffredinol y gronfa ETT h.y. i greu darbodaeth.

5.4 Er enghraifft, dywedodd un o'r rhanddeiliaid:

'Mae pobl yn gwybod amdani. Y drafferth yw, mae pawb yn ymgeisio. Mae £10m yn swm mawr, felly wrth gwrs y bydd pobl yn mynd amdani. Y canlyniad yw bod y rhaglen yn cael ei gorlethu. Mae pawb yn paratoi ceisiadau ym misoedd Medi a Hydref.  (Aelod o banel Asesu Cronfa'r ETT).

5.5 Awgrymodd lond llaw o randdeiliaid y gallai, ac y dylai'r Byrddau Iechyd fod yn fwy rhagweithiol wrth flaenoriaethu pa geisiadau i'w cyflwyno, ac wrth wneud penderfyniadau pragmataidd i beidio â buddsoddi amser ar ddatblygu ceisiadau y gellid dadlau eu bod yn fwy sbeciannol. Yn gysylltiedig â hyn, awgrymodd rhai y

[48] Yn seiliedig ar 110 o geisiadau, â 42 o'r rheiny'n cael cymeradwyaeth.

gellid gosod cyfyngiad ar nifer y ceisiadau a ganiateir gan bob Bwrdd Iechyd er mwyn cwtogi ar yr ymdrech sy'n mynd i baratoi ac asesu ceisiadau aflwyddiannus.

5.6 Mynegwyd safbwynt ar raddfa weddol eang ymysg y rhanddeiliaid hefyd y byddai gwella’r canllawiau ar gyfer ymgeisio am gyllid o dan Thema 1 yr ETT yn helpu i leihau nifer y ceisiadau sy'n dod i mewn i'r system. Aeth ambell un mor bell ag awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru geisio cyflwyno themâu bras (yn seiliedig ar y dystiolaeth o angen) ar gyfer pob un o’r 'cylchoedd' ymgeisio i gronfa’r ETT, gan wahodd prosiectau gwerthuso cyflym ac uwchraddio i ddod i'r fei. Ond roedd eraill yn teimlo y gallai hyn achosi problemau, ac y gallai hyd yn oed gael yr effaith groes o atal pobl rhag cyflwyno syniadau arloesol nad ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd yn dwt â'r themâu a fyddai’n cael eu pennu ymlaen llaw. Opsiwn arall a gyflwynwyd oedd ystyried cyflwyno cam mynegiant o ddiddordeb (EoI) 'ysgafn' a fyddai'n cynnwys sgrinio prosiectau allan er mwyn llunio rhestr fer fwy pendant o brosiectau i'w datblygu ar gyfer y cam ymgeisio cyflawn.

5.7 Fodd bynnag, dim ots pa ddull a ddefnyddir i sicrhau gostyngiad yn nifer gyffredinol y ceisiadau, thema a gododd dro ar ôl tro oedd na ddylai unrhyw newidiadau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru gyfyngu ar greadigrwydd, arloesedd na chyflymdra'r gwaith sy'n rhan gynhenid o'r Rhaglen.

5.8 Awgrymodd eraill welliannau posibl i'r broses o asesu a gwerthuso ceisiadau i'r gronfa ETT. Er enghraifft, roedd dau o'r rhanddeiliaid yn teimlo y gellid gwella cysondeb o ran y ffordd y mae ceisiadau am brosiectau’n cael eu harchwilio a'u hasesu. Yn benodol, roedden nhw'n meddwl y gallai'r Rhaglen gael ei llesteirio gan ddiffyg ymwybyddiaeth fanwl a thechnegol ymysg aelodau'r panel. Roedd hyn, yn eu barn nhw, yn cyfyngu ar i ba raddau y mae prosiectau'n cael eu profi'n gadarn o ran eu cysylltiadau â rhaglenni cenedlaethol ehangach o fewn y GIG, ac o ran beth fyddai'r maint gorau posibl ar gyfer prosiect a ariennir drwy’r ETT er mwyn sicrhau cymesuredd â chynlluniau eraill. Yn hynny o beth, dywedodd un o'r rhanddeiliaid y gallai'r Rhaglen elwa ar:

‘Ddealltwriaeth ehangach a dyfnach am y GIG ar y panel asesu [ar gyfer y Gronfa ETT]’.

5.9 Dadleuodd y rhanddeiliaid penodol yma y gallai hyn ganiatáu ar gyfer gwerthusiad mwy technegol a chadarn o rai prosiectau sy'n gwneud cais am gyllid ETT, ac yn enwedig y rhai mwy o faint.

5.10 Roedd y bobl hynny a oedd ynghlwm wrth gyflawni prosiectau ETT (ar draws Themâu 1, 2 a 3) yn teimlo bod ganddynt berthnasau adeiladol iawn â staff Rhaglen Llywodraeth Cymru. Yn benodol, soniwyd bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol ac yn hygyrch yn ystod y broses o wneud cais, ac ar ôl dyfarnu'r cyllid. Ymhlith y sylwadau a wnaed yn hynny o beth roedd:

'Maen nhw'n rhagweithiol iawn, ac mae'r tîm yn agored ac yn hygyrch.'

'Maen nhw'r union beth sydd ei angen - dwi ddim yn gwybod beth yn fwy y gallent ei wneud, heblaw, efallai, am ddarparu adroddiad neu gylchlythyr ar y prosiectau fel y gall pobl weld y mathau o bethau sy'n cael eu hariannu a'r esiamplau o arfer dda ry'n ni am weld rhagor o'r rhain'.

5.11 Roedd yr ymgeiswyr a'r rhanddeiliaid yn teimlo bod y templedi (e.e. y ffurflen gais a'r adroddiadau ar gynnydd) yn briodol, er o'n hadolygiad ni ein hunain, mae'n amlwg nad yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n gyson gan yr holl ymgeiswyr neu brosiectau, ac mae'n debyg bod yna gyfleoedd i hyrwyddo neu hyd yn oed i orfodi defnydd mwy systemataidd o'r templedi.

5.12 Mynegodd arweinydd un prosiect siom bod cais i wyro rhywfaint o gyllid (o un pennawd cyllidebol i un arall) wedi cael ei wrthod gan Lywodraeth Cymru, a bod y swm o dan sylw wedi cael ei gymryd yn ôl yn sgil hynny. Roedd hyn wedi gadael rheolwr y prosiect o dan yr argraff nad oedd gan Lywodraeth Cymru hyder ei allu i reoli'r prosiect yn fedrus.

*Amser Cyflwyno a Pharatoi Cyn Cymeradwyo*

5.13 Mynegodd rhanddeiliaid ac arweinwyr prosiectau bryderon o ran yr 'amser cyflawni' cyn cymeradwyo a chychwyn y prosiect. Er bod y bobl hyn yn cydnabod, ac yn cytuno â'r pwyslais ar gyflawni cyflym, roedden nhw'n synhwyro hefyd bod llawer o'r prosiectau a gymeradwywyd dan anfantais am fod disgwyl iddynt gychwyn eu prosiect mor gyflym. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hadolygiad ni o'r adroddiadau ar gynnydd a gyflwynwyd gan brosiectau'r gronfa ETT. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru'r adborth yma hefyd, ac aethant ati i ymestyn yr amser cyflwyno ar gyfer galwad yr ail gylch (2016-17) ac roeddent yn cynllunio estyniad pellach ar gyfer 2017-28) gan ddisgwyl i'r prosiectau a gymeradwyir yn Hydref 2017 gychwyn yn Ebrill 2018.

5.14 Roedd hyn yn arbennig o wir lle'r oedd rhaid i brosiectau recriwtio staff a'u cael yn eu swyddi er mwyn cychwyn y gwaith cyflawni. Fodd bynnag, roedd y rhanddeiliaid yn teimlo hefyd nad oedd rhai prosiectau wedi gwneud digon o waith paratoi cyn

cyflwyno eu ceisiadau er mwyn sicrhau bod y prosesau caffael angenrheidiol yn eu lle, a bod hyn wedi achosi oedi ar ôl dyfarnu'r cyllid. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir yn eu canllawiau i ymgeiswyr, trwy ymgysylltiad uniongyrchol â'r timau a oedd yn paratoi'r cynigion, a thrwy achlysuron rheolaidd y Rhwydwaith Technoleg, eu bod yn disgwyl i'r caniatadau hyn fod yn eu lle cyn cyflwyno'r ceisiadau. Dadleuodd swyddogion Llywodraeth Cymru bod gwthio pethau yn eu blaen fel hyn yn rhan allweddol o'r newid ehangach mewn diwylliant y mae'r Rhaglen ETT yn ei feithrin.

5.15 Yn y cyd-destun hwn, dywedodd un o'r rhanddeiliaid:

> 'Nid yw arweinwyr caffael yn gweld y ceisiadau o reidrwydd, does neb yn siarad â nhw am y peth, neu'n sicr nid mewn digon o fanylder. O ganlyniad, gall prosiectau sydd wedi cael cymeradwyaeth am gyllid fynd i drafferthion gyda'u prosesau a'u rheolau caffael, a gellid osgoi hyn'.

5.16 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cynrychiolydd caffael o GIG Cymru ar eu panel arfarnu ar gyfer galwad yr ail gylch o geisiadau i'r Gronfa ETT, gyda chylch gwaith penodol i sicrhau bod y trefniadau a'r caniatadau caffael yn eu lle cyn cymeradwyo'r ceisiadau.

**Effeithiolrwydd - Eglurder yr Amcanion**

5.17 Yn ein hadolygiad o ddogfennaeth lefel prosiect sy'n ymwneud â'r prosiectau gwerthuso cyflym ac uwchraddio o dan Thema 1, aethon ni at i archwilio ac asesu i ba raddau yr oedd y prosiectau wedi bod yn glir ynghylch beth roeddent yn bwriadu ei gyflawni. Yn benodol, roedden ni'n chwilio am dystiolaeth bod y prosiectau wedi pennu dangosyddion CAMPUS[49] , mesuriadau o ddeilliannau/effaith a'u bod wedi ystyried data/tystiolaeth gwaelodlin i ddangos yr angen, a sut y byddent yn mesur cynnydd.

5.18 O'r 39 prosiect o dan Thema 1 yr ETT yr oedd y wybodaeth ar gael ar eu cyfer:

- Roeddem yn ystyried bod chwech o'r 39 prosiect (15 y cant) yn gadarn yn nhermau eglurder eu hamcanion. Roedd y chwe phrosiect yma'n dangos tystiolaeth o fanteision credadwy a chynhwysfawr, effeithiau a dangosyddion CAMPUS (ynghyd â thargedau mesuradwy) ac roeddent yn cyfeirio at sefyllfaoedd gwaelodlin hygred.

[49] Cyrraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

- Roeddem yn ystyried bod 27 o'r 39 prosiect (70 y cant) yn gymedrol yn nhermau eglurder eu hamcanion. Roedd y prosiectau hyn yn dangos rhyw dystiolaeth o fanteision, effeithiau a/neu dargedau yn gysylltiedig â'r prosiect, ond roedd yna ddiffyg manylder (e.e. nid oedd y dangosyddion yn feintiol neu'n CAMPUS o ran eu natur bob tro) ac nid oeddent yn cyflwyno neu'n tynnu ar y dystiolaeth waelodlin.
- Roeddem yn teimlo bod chwech o'r 39 prosiect (15 y cant) yn wan yn nhermau eglurder eu hamcanion. Yn yr achosion hyn, gwelwyd ychydig neu ddim tystiolaeth am fanteision, effeithiau neu dargedau yn gysylltiedig â'r prosiect, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth waelodlin.

5.19 Yn nhermau arferion gorau, roedd gan rai o'r chwe phrosiect roeddem yn teimlo eu bod yn gadarn:

- Adran yn y cais a oedd yn rhestru'r manteision ariannol (mesuradwy) ac anariannol yr oedd y prosiect yn disgwyl eu gwireddu, ynghyd â manylion am sut y câi'r rhain eu mesur.
- Adran yn eu cais a oedd yn dangos yr arbedion cylchol disgwyliedig o ran costau, gan roi manylion ariannol dros amserlen y prosiect, a chan ddefnyddio tystiolaeth waelodlin i ategu'r rhagdybiaethau a'r amcanestyniadau a wnaed.
- Targedau mesuradwy sy'n seiliedig ar ddeilliannau (CAMPUS) i'w cyflawni, er enghraifft:
    - Arbediad amser o hyd at 80 y cant ar waith gweinyddol sy'n gysylltiedig â ffeilio.
    - Arallgyfeirio hyd at 50 y cant o amser staff i ganolbwyntio ar weithgareddau a thasgau eraill.
    - Gostyngiad o hyd at 15 y cant mewn derbyniadau am anhwylderau penodol.
    - 75 y cant o nyrsys cymunedol yn cael eu haddysgu i roi diagnosis a thrin anhwylderau penodol.
    - Cwtogi 30 y cant ar y gost o roi presgripsiynau am gynnyrch amhriodol.

- Dull cydlynol a grymus o fynd ati i lunio'r cais ei hun, â llif rhesymeg clir rhwng yr angen a glustnodwyd, y nodau, y gweithgareddau a'r allbwn a'r deilliannau a'r effeithiau disgwyliedig.

**Effeithiolrwydd - Cyflawni Prosiectau**

5.20 Yn ein hadolygiad o'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r prosiectau gwerthuso cyflym ac uwchraddio a ariannwyd o dan Thema 1, archwiliwyd ac aseswyd tystiolaeth o ran a yw'r prosiectau'n cyflawni gweithgarwch yn ôl y bwriad (h.y. fel y mae eu ceisiadau yn ei bennu ac fel y mae llythyrau cymeradwyo'r grantiau'n ei gadarnhau). Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, cafwyd bod:

- 14 o'r 39 prosiect (36 y cant) wedi darparu tystiolaeth gadarn bod y gweithgarwch yn cael ei gyflawni yn ôl y bwriad, gan gyflwyno tystiolaeth gadarn i ategu hyn trwy'r adroddiadau diweddaru chwarterol
- 22 o'r 39 prosiect (56 y cant) wedi darparu tystiolaeth gymedrol o gyflawniad. Roedd y prosiectau hyn wedi darparu rhywfaint o dystiolaeth am gyflawniad ond nid ystyriwyd bod hyn yn gadarn am ein bod yn teimlo bod bylchau yn y wybodaeth, o ran a oedd y prosiect yn cael ei gyflawni yn ôl y bwriad ai peidio.
- Nid oedd tri o'r 39 prosiect (wyth y cant) wedi darparu unrhyw dystiolaeth eu bod yn cyflawni'r gweithgarwch yn ôl y bwriad.

5.21 Roedd esiamplau o arferion da o'r 14 prosiect a ddarparodd dystiolaeth gadarn am gyflawniad yn cynnwys:

- Adroddiadau manwl a pherthnasol, ond cryno, ar gynnydd.
- Y defnydd o ddiweddariadau RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) neu yn seiliedig ar 'ddangosfwrdd' ar elfennau critigol o weithrediad y prosiect, ynghyd â naratif byr, a oedd, yn achos yr esiamplau gorau, yn cael ei adnewyddu a'i ddiweddaru ar gyfer pob adroddiad.
- Defnydd o gofrestrau o risg ar gyfer y prosiect a’u diweddaru yn rhan o'r adroddiadau ar gynnydd, gan gynnwys camau lliniaru.
- Cerrig milltir a diweddariadau ar gyflawniad y prosiect yn erbyn y rhain, gan gynnwys esboniadau cryno am unrhyw wyriadau neu oedi.

# 6. Effaith

6.1 Yn y Bennod hon, byddwn ni'n ystyried tystiolaeth am effaith y Rhaglen ETT hyd yn hyn. Mae'r bennod hon yn tynnu ar dystiolaeth o'n trafodaethau â rhanddeiliaid ac o'r adolygiad o ddogfennau.

**Canfyddiadau'r Rhanddeiliaid - Effaith**

6.2 Nodwyd eisoes ei bod hi'n rhy gynnar yng nghylch oes y Rhaglen (18 mis i mewn) i weld llawer yn nhermau tystiolaeth gwerthuso lefel prosiect ffurfiol o ran effaith. Wedi dweud hynny, roedd ein trafodaethau â rhanddeiliaid yn awgrymu bod prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy'r Gronfa ETT a'r Rhaglen ar led yn dangos addewid mewn perthynas â'r deilliannau a fwriedir â'r GIG yn mabwysiadu technolegau newydd. (Fel y nodwyd ym Mhennod 4) mae'r Rhaglen yn darparu cymysgedd a chydbwysedd priodol o weithgarwch prosiect, gan fuddsoddi mewn technoleg sy'n ymwneud ag arloesedd clinigol a gweinyddol yn y GIG sy'n alinio'n dda â'r nod a'r deilliannau y mae'r Rhaglen yn bwriadu eu cyflawni, ac i'r ffactorau allweddol sy'n bwydo polisi[50].

6.3 Er enghraifft, roedd hi'n glir o'n trafodaethau ag arweinwyr prosiectau (ar gyfer yr wyth prosiect yn ein sampl manwl) bod cyllid ETT (o ba Thema bynnag) wedi bod yn allweddol wrth ganiatáu i'w prosiectau barhau, â phob un ohonynt yn dweud na fyddent wedi gallu bwrw ymlaen â'u menter pe na bai'r cyllid ar gael iddynt (sy'n golygu ei bod yn bosibl na fyddai'r dechnoleg gysylltiedig wedi cael eu mabwysiadu) ac ni fyddai cyllid cyfatebol wedi cael ei ddiogelu yn hynny o beth.

6.4 Enghraifft allweddol o hyn oedd y prosiect AgorIP, am fod arweinydd y prosiect yn teimlo na fyddai wedi gallu parhau heblaw am y buddsoddiad o'r fron i gyflawni gweithgarwch cyn-datblygu trwy'r Rhaglen ETT.

'Mae'r Rhaglen ETT a'r cyllid a gafwyd wedi bod yn hollol hanfodol wrth ganiatáu i'r prosiect ddatblygu i'r fath raddau'.

6.5 Roedd y gorchestion allweddol yng nghyd-destun y prosiect hwn yn cynnwys diogelu cyllid ERDF trwy WEFO, a chyllid cyfatebol trwy Brifysgol Abertawe, i uwchraddio'r gwaith a buddsoddi mewn gweithgarwch sydd â'r potensial i arwain at IP, a allai, yn ei dro, gyfrannu at ddeilliant 'iechyd-cyfoeth' y Rhaglen ETT.

---

[50] Yn nodedig yn hyn o beth yw argymhellion y Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles ac ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

6.6 Nododd prosiectau eraill eu bod wrthi'n ymarferol yn casglu data monitro, a'u bod yn y broses o gyflawni gwerthusiadau. Yn hynny o beth, dywedodd un arweinydd prosiect:

‘Mae gennym alldro clir, a maes o law byddwn yn gallu darparu darlun clir iawn. Mae hi eisoes yn edrych yn gadarnhaol iawn'.

6.7 Roedd eraill eisoes wedi dechrau clustnodi rhai pwyntiau dysgu allweddol mewn perthynas ag effaith. Er enghraifft, dywedodd arweinydd prosiect arall:

‘Rydyn ni'n dysgu llawer o wersi yr ydym yn awyddus i'w rhannu â BILl eraill. Mae yna fri o gyrraedd rhyw nod yn gyntaf, ond mae yna lu o faglau hefyd, ac mae angen i ni helpu eraill i osgoi taro'r un rhai.'

6.8 Yn ogystal, amlygwyd canfyddiadau cadarnhaol am y Rhaglen ETT a rhai o'r prosiectau a ariennir drwyddi gan y ffaith fod sawl un o'r mentrau wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer amryw o wobrau (ac wedi ennill mewn ambell i achos), ond nid yw'n bosibl gwneud sylwadau am ba agweddau o'r rhaglenni y mae'r rhain yn ymwneud â nhw o fewn cyfyngiadau'r adolygiad, hwn am nad oeddent yn amlwg yn yr adborth o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y cyfweliadau.

6.9 O ystyried ei bod hi'n gyfnod cymharol gynnar yn oes y Rhaglen ETT a'r prosiectau a ariennir drwyddi, roedd hi'n anochel bod y trafodaethau â rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar y ffordd orau o gasglu tystiolaeth am effeithiau yn y dyfodol. Rydyn ni'n ystyried y cyd-destun ehangach hwn am ba effeithiau y byddai'n rhesymol disgwyl i'r Rhaglen ETT a'i phrosiectau eu cyflawni ym Mhennod 7, lle'r ydyn ni'n awgrymu fframwaith o ddangosyddion yn seiliedig ar ddeilliannau.

6.10 Roedd yna deimlad clir ymysg y rhanddeiliaid y dylai'r gweithgarwch monitro a gwerthuso sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen ETT ganolbwyntio ar ateb y cwestiwn 'pa wahaniaeth sy'n cael ei wneud?' yn hytrach na phoeni'n ormodol am 'faint ydyn ni'n ei wneud?'. Roedd hyn yn arbennig o wir o gymryd natur arbrofol a pheilot rhai o weithgareddau'r prosiectau a gymeradwywyd. Dywedodd sawl un o'r rhanddeiliaid (ac ategwyd y peth gan ein hadolygiad o ddogfennau) bod y 'targedau' lefel prosiect a bennwyd yn y llythyrau cynnig grantiau yn amlwg yn canolbwyntio ar broses yn hytrach nag ar ddeilliannau.

6.11 Dadleuodd y rhanddeiliaid hefyd y dylai Bwrdd y Rhaglen gymryd diddordeb brwd mewn gwthio'r agenda gwerthuso a dysgu yn ei flaen yn rhagweithiol yn rhan o'i waith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am sicrhau bod dysgu yn seiliedig ar ddeilliannau yn cael ei ledaenu'n fewnol (h.y. o

fewn ac ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr adran economeg) ac ar draws y GIG ar led. Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo hefyd bod gan Dechnoleg Iechyd Cymru rôl allweddol i'w chwarae yn hyn o beth, yn ogystal â rhaglen barhaus o achlysuron y Rhwydwaith Technoleg Iechyd a oedd yn cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi gan randdeiliaid ac arweinwyr prosiect ar y cyfan. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r rhwydwaith fel fforwm i gyfleu negeseuon ehangach mewn perthynas â'r Rhaglen ETT hefyd. Mae hyn yn cynnwys tynnu sylw at brosiectau sy'n perfformio i safon uchel, a chlustnodi'r ffyrdd y mae angen i brosiectau sy'n tanberfformio wella.

6.12 Nododd sawl un o'r rhanddeiliaid taw un o'r rhwystrau posibl i wireddu dull mwy cyson o fynd ati ar lefel rhaglen i fesur deilliannau ac effeithiau yw natur amrywiol portffolio prosiectau ETT, hyd yn oed o fewn y pedair Thema. Er hynny, dadleuodd y rhanddeiliaid ei bod yn teimlo'n iawn yn reddfol i ddatblygu'r agenda hwn, neu, fel y dywedodd un o'r rhanddeiliaid 'mae yna berygl y gallech eich ffeindio'ch hun yn ariannu set o arbrofion digyswllt'.

6.13 Nododd nifer o randdeiliaid sylwadau am yr angen am ganolbwyntio ar gofnodi deilliannau cynnil neu ganolradd sy'n deillio o'r prosiectau a ariennir, ac am i hyn gael ei glustnodi a'i ledaenu ar lefel Rhaglen. Yn benodol, roeddent yn cyfeirio at 'arloesi diwylliannol' ac esiamplau o sut y gallai technoleg fod yn arwain at 'newid ymddygiad' neu sefydlu newidiadau ehangach o ran systemau, ac yn gofyn y cwestiwn: sut mae trosi arloesedd yn arferion mesuradwy a chynaliadwy?'. Pwyntiodd eraill at yr angen am i effaith gael ei hystyried yng nghyd-destun y manteision uniongyrchol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr gwasanaethau'r GIG.

6.14 Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan randdeiliaid ac arweinwyr prosiect yn hyn o beth roedd:

'O ran effaith, bydd yna sawl prawf allweddol i ni. Bydd angen i ni allu dangos a yw'r prosiect wedi gwireddu'r newid diwylliannol, a'r deilliannau y gellir eu masnacheiddio'. (Arweinydd Prosiect)

'Un o'r deilliannau allweddol fydd cofleidio technoleg newydd ac uwchraddio prosiectau peilot yn llwyddiannus er mwyn eu sefydlu yn y gwasanaethau mewn ffordd sy'n lleihau'r costau net ar gyfer y sector cyhoeddus, yn gwella ansawdd ac yn gostwng y pris'. (Arweinydd Prosiect)

**Sylfaen y Dystiolaeth Ddogfennol**

6.15 Adeg cyflawni'r adolygiad, roedd yna ddiffyg tystiolaeth o ran pa effeithiau a deilliannau yr oedd y Rhaglen ETT a'r prosiectau a oedd yn cael eu hariannu drwyddi yn eu cyflawni. Nid oedd hyn yn beth annisgwyl o feddwl i'r Rhaglen ETT gychwyn gwta 18 mis yn ôl, ac y gofynnwyd yn benodol i ni gyflwyno argymhellion o ran sut y gellid gwneud y gwaith gwerthuso'n fwy cyson ar draws prosiectau, a'i wella ar gyfer y rhaglen i gyd. Fel yr ydym wedi ei esbonio eisoes, roedd yna lai o dystiolaeth werthuso lefel prosiect ar gael i ni ei harchwilio nag yr oeddem wedi ei ddisgwyl (dim ond dau adroddiad gwerthuso lefel prosiect o'r prosiectau gwerthuso cyflym ac uwchraddio a ariannwyd o dan Thema 1) yn seiliedig ar fanyleb yr adolygiad.

6.16 Adeg cyflawni ein hadolygiad, roedd yna ddiffyg tystiolaeth werthuso mewn perthynas ag effaith yr Hyb Mabwysiadu Technoleg Cenedlaethol/Technoleg Iechyd Cymru hefyd, a hynny am eu bod yn dal i gael eu sefydlu. Mae hi'n arwyddocaol fodd bynnag, bod y fenter hon wedi cael ei datblygu'n gyflym o gysyniad i weithrediad o fewn 12 mis. Nid oedd yr adroddiad gwerthuso ar raglen Prosiectau Enghreifftiol Bevan wedi cael ei gwblhau a'i ryddhau adeg cyflawni'r adolygiad hwn ychwaith.

6.17 I raddau helaeth, roedd y diffyg tystiolaeth am fod y rhan fwyaf o'r prosiectau ar draws Themâu 1, 2 a 3 yn dal i fynd rhagddynt, neu am eu bod ar gam cynnar yn eu datblygiad (rhai ohonynt oherwydd oedi cyn cychwyn) ac nid oeddent wedi casglu gwybodaeth fonitro na thystiolaeth werthuso ystyrlon eto.

6.18 Mae hi'n amlwg hefyd o'n hadolygiad o ddogfennau ac o drafodaethau ag arweinwyr prosiectau bod cadernid y cynlluniau gwerthuso'n amrywio'n sylweddol ar draws y prosiectau a ariennir. Mae gan rai prosiectau gynlluniau clir sy'n cyfuno monitro mewnol, gweithgarwch hunan-werthuso a chomisiynu gwerthuswyr annibynnol. Mae'n debyg nad oes gan eraill unrhyw gynlluniau gwerthuso cadarn, er bod hyn yn ddull pwysig o asesu effeithiau, sy'n rhan allweddol o'r prosiect ei hun. Er ei bod hi'n ddealladwy bod gan brosiectau gynlluniau monitro a gwerthuso sy'n gyson â graddfa'r cyllid, ar y cyfan, roedd y rhanddeiliaid yn teimlo ei bod hi'n briodol dwysáu'r ffocws ar weithgarwch gwerthuso, dysgu a lledaenu ar y cam yma yn oes y Rhaglen ETT. Rydyn ni'n cynnig awgrymiadau ymarferol o ran sut y gellid bwrw ymlaen â hyn ym Mhennod 7, gan gynnwys syniadau o ran sut y gellid defnyddio set fwy cyson o ddeilliannau mesuradwy.

6.19 Gan droi'n benodol at 39 prosiect y gronfa ETT (Thema 1 - gwerthuso cyflym ac uwchraddio), yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r ddogfennaeth, cawsom:

- Dystiolaeth glir fod dau brosiect (pump y cant) yn cyflawni effeithiau gyda thystiolaeth gadarn i ategu eu cyflawniadau.
- Bod rhywfaint o dystiolaeth o effeithiau ar gael ar gyfer pum prosiect (13 y cant). Fodd bynnag, nid oedd yn hollol glir yn yr achosion hyn a oedd y prosiectau'n cynhyrchu'r effeithiau disgwyliedig/a ragwelwyd ai peidio.

6.20 Nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith [hyd yn hyn] mewn perthynas â 32 (82 y cant) o'r 39 prosiect.

## 7. Y Trefniadau Monitro a Gwerthuso at y Dyfodol

7.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n nodi ein canfyddiadau o ran beth y gellid ei fesur ar sail fwy cyson ar draws y prosiectau a gynorthwyir, ac yn cynnig awgrymiadau o ran y camau y gellid eu cymryd i gynorthwyo'r gwaith o werthuso effaith y Rhaglen ETT yn y tymor hwy. Mae'r bennod hon yn tynnu ar y gwaith adolygu a wnaed ar ddogfennau'r prosiect (ac yn benodol y dangosyddion sy'n cael eu defnyddio gan y prosiectau a ariennir ar hyn o bryd), safbwyntiau'r rhanddeiliaid, a gwybodaeth a phrofiad y tîm adolygu ei hun am arferion monitro a gwerthuso.

**Safbwyntiau'r Rhanddeiliaid**

7.2 Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo y byddai datblygu manyleb neu gynllun cyffredinol ar gyfer y gwaith yma'n fan cychwyn pwysig. Byddai hyn yn darparu sylfaen a phwynt cyfeirio allweddol er mwyn galluogi’r prosiectau i ddangos eu perfformiad a'u heffaith. Yn ogystal, byddai'n llenwi'r bwlch rhwng cyfeiriad cyffredinol y polisi a chyflawni'r prosiect 'ar lawr gwlad'.

7.3 Gyda chynllun lefel rhaglen cliriach yn ei le, roedd y rhanddeiliaid yn teimlo y byddai’n gwneud synnwyr datblygu dull mwy cyson o fynd ati i fesur effaith, er i sawl un nodi y byddai angen gweithredu hyn yn ofalus er mwyn peidio â bod yn rhy anhyblyg neu’n wrth-gynhyrchiol. Er enghraifft, dywedodd un o'r rhanddeiliaid:

‘Mae'n wir y gallai'r rhaglen elwa ar ychydig bach mwy o strwythur yn nhermau DPA. Ond bydden i'n wyliadwrus rhag mynd yn rhy bell i'r cyfeiriad arall. Rwy'n credu y dylem ni osgoi'r temtasiwn o ofyn am ormod o wybodaeth gan bobl'.

**Dangosyddion am Ddeilliannau - Dull yn Seiliedig ar Fframwaith**

7.4 O ystyried y sialensiau a bennwyd ym Mhennod 6 o ran amrywiaeth natur a chwmpas y prosiectau a ariennir ar draws gwahanol Themâu'r Rhaglen ETT, rydyn ni'n teimlo y gallai dull o ymdrin â dangosyddion yn seiliedig ar ddangosyddion fod yn ffordd briodol o fynd ati. Yn ein hadolygiad o ddogfennau'r prosiect, fe archwiliwyd y mathau o ddeilliannau ac effeithiau y mae'r prosiectau cyfredol yn dweud eu bod yn bwriadu eu cyflawni. Fe gynhalion ni drafodaethau â rhanddeiliaid hefyd am ddefnyddio dulliau mwy cyson o fonitro a gwerthuso.

7.5 Yn seiliedig ar y gwaith yma, rydyn ni'n cynnig dewislen o ddangosyddion sy'n seiliedig ar ddeilliannau, wedi eu grwpio yn dri chategori ar sail 1. newid systemau a diwylliant, 2. deilliannau a phrofiadau cleifion; a 3. iechyd a chyfoeth. Byddai gofyn i'r prosiectau ddewis o blith y rhain a'u cymhwyso/defnyddio yng nghyd-destun eu

gweithgareddau. Mae'r dull hwn o fynd ati'n cydnabod na fydd yr holl ddangosyddion yn berthnasol i bob prosiect.

7.6 Mae hi'n bwysig cydnabod y byddai angen pennu'r dangosyddion fel eu bod yn gymesur a swm y cyllid a ddyrennir (a'u hasesu gan y panel(au) asesu yn y cyd-destun hwnnw).

7.7 Ar yr olwg gyntaf, ein safbwynt ni yw y byddai'n rhesymol disgwyl i brosiectau ddewis cyfanswm o rhwng tri a phump dangosydd am ddeilliannau ar draws y categorïau fframwaith, ac amlygu pa ddata y byddent yn ei ddefnyddio i ddangos cynnydd a mesur effaith, gan gynnwys, lle bo modd, defnyddio gwybodaeth waelodlin i osod y buddion/cynnydd net yn eu cyd-destun.

| **Categori Dangosydd am Ddeilliannau:** | **Newid systemau a diwylliant** |
| --- | --- |
| • Cynnydd mewn ymwybyddiaeth am anhwylderau ymysg staff (e.e. staff cymunedol)<br>• Gostyngiad mewn derbyniadau i ysbytai (yn ymwneud ag anhwylderau penodol)<br>• Gostyngiad/Cynnydd yn yr ymweliadau allestyn i'r gymuned/â chartrefi cleifion (wedi ei fesur yn ôl baich achosion)<br>• Gostyngiad mewn apwyntiadau Meddyg Teulu<br>• Gostyngiad mewn teithio (wedi ei fesur yn ôl amser a chost)<br>• Gostyngiad yn y defnydd o gynhyrchion ar bresgripsiwn (cyffuriau a deunyddiau eraill e.e. gorchuddion clwyfau)<br>• Gostyngiad mewn gwastraff<br>• Gostyngiad yn y gofynion cyffredinol o ran stoc<br>• Cynnydd yn y gyfran o amser y mae staff yn ei dreulio ar weithgarwch gyda'r cleifion<br>• Gostyngiad mewn dyblygu gwybodaeth<br>• Gostyngiad yn yr amser a dreulir ar ddatgelu afiechydon heintus<br>• Gostyngiad yn hyd arhosiad (LoS) y cleifion<br>• Gostyngiad yn nifer yr apwyntiadau a gollir<br>• Gostyngiad yn y derbyniadau brys (am broblemau iechyd penodol a allai fod yn gysylltiedig â ffocws y prosiect)<br>• Cynnydd yn effeithlonrwydd codio clinigol<br>• Gwell morâl ymysg staff | |

| **Categori Dangosydd am Ddeilliannau:** | **Deilliannau a phrofiadau cleifion** |
|---|---|

- Cynnydd mewn ymwybyddiaeth am anhwylderau
- Gostyngiad mewn amserau aros (cyfeirio, diagnosis a thriniaeth)
- Gostyngiad yn nifer y cyfeiriadau sy'n mynd ar goll
- Gostyngiad yn amserau teithio cleifion
- Gostyngiad yn nifer yr apwyntiadau sy'n ymwneud ag iechyd
- Gwell profiadau i gleifion (adborth)
- Gostyngiad yn hyd cyfartalog 'episod claf'
- Lleihad yn nifer/cyfran y gweithredoedd ymyrrol

| **Categori Dangosydd am Ddeilliannau:** | **Iechyd a chyfoeth** |
|---|---|

- Cynnydd yn yr asedau sy'n cael eu masnacheiddio (h.y. refeniw mesuradwy neu weithgarwch masnachol o gylch un o asedau'r GIG)
- Cynnydd yn y gyfran o gyllid o ddiwydiant/buddsoddiad masnachol ar gyfer gwaith ymchwil ym maes iechyd/gweithgarwch Ymchwil a Datblygu (gan gynnwys o'r tu hwnt i Gymru)
- Trefniadau cydweithredol â byd masnach/y sector preifat
- Ceisiadau am batentau
- Cynnydd yn y ganran o wariant caffael y GIG sy'n mynd ar gynhyrchion a gwasanaethau 'o Gymru'
- Creu swyddi newydd (trwy ddefnydd doethach o asedau'r GIG)
- Manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad o'r tu allan

7.8 Gellid cywreinio ymhellach ar y fframwaith arfaethedig hwn o ddangosyddion, ac mae'n bosibl y gellid eu lleihau o ran niferoedd. Yn y cyd-destun hwn, byddem yn awgrymu bod Bwrdd y Rhaglen ETT yn trafod y fframwaith arfaethedig o ddangosyddion yng nghyd-destun canfyddiadau ehangach yr adolygiad hwn, a'u bod yn cytuno ar set fwy terfynol i'w rhoi ar waith.

7.9 Yn ein barn ni, bydd angen i'r Bwrdd ystyried hefyd a ellir cymhwyso fframwaith dangosyddion o'r math hwn i brosiectau a gymeradwywyd eisoes yn adolygol. Mae'n amlwg bod gan hyn y potensial i fod yn ymarfer digon cymhleth a dwys o ran

ei ddefnydd o adnoddau, a gallai ddenu ymateb sy'n llai na chadarnhaol gan arweinwyr y prosiectau. Fodd bynnag, gallai fod yn bosibl pennu dangosyddion deilliannau yn adolygol yng nghyd-destun prosiectau mwy, fel Technoleg Iechyd Cymru, sy'n dal i fod yn eu camau sefydlu i bob pwrpas.

**Monitro a Gwerthuso: Cefnogi diwylliant o ddysgu**

7.10 Yn ogystal â datblygu fframwaith mwy cyson o ddangosyddion yn seiliedig ar ddeilliannau ar gyfer y Rhaglen ETT yn gyffredinol, mae'r adolygiad hwn wedi amlygu'r cyfle i gynorthwyo prosiectau trwy weithgarwch monitro a gwerthuso tymor hwy mewn ffordd a fydd yn hwyluso diwylliant mwy cadarn o ddysgu a lledu’r ddysg.

7.11 Mae yna nifer o gamau ymarferol y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i gyflawni'r nod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Darparu canllawiau mwy manwl ar gyfer ymgeiswyr o ran beth a ddisgwylir ganddynt os ydynt yn cael eu hariannu trwy'r Rhaglen ETT. Dylai hyn gynnwys canllawiau penodol o ran beth y disgwylir i'r prosiectau eu hunain ei wneud (hunan-werthuso) ac a oes disgwyl i brosiectau ddyrannu adnoddau i gomisiynu gwerthusiadau lefel prosiect allanol (yng nghyd-destun graddfa'r cyllid).
- Ystyried cynnwys gweithgarwch gwerthuso a lledaenu fel maen prawf sgorio wedi ei bwysoli'n briodol ar gyfer ceisiadau am brosiectau, ac ychwanegu adran orfodol at y ffurflen gais.
- Comisiynu pecyn cymorth monitro a gwerthuso ar gyfer y prosiectau a ariennir. Gallai hyn gynnwys 'awgrymiadau ac argymhellion' ymarferol ar ddulliau o fynd ati, offer a thechnegau, awgrymiadau o ran ble i droi am ddata gwaelodlin a sut i'w ddefnyddio, sut i fynd ati i gomisiynu gwerthusiad allanol, sut i ddadansoddi a chyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth, a sut i gyfleu a lledaenu dysg (cadarnhaol a negyddol). Dylai hyn ganolbwyntio ar gasglu deilliannau cynnil a straeon 'o fywyd go iawn' i gydategu'r fframwaith dangosyddion arfaethedig.
- Comisiynu cymorth monitro a gwerthuso parhaus ar gyfer y prosiectau a ariennir er mwyn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ychwanegol. Gallai hyn fod mewn lleoliadau grŵp a gallai fod yn gysylltiedig ag achlysuron y Rhwydwaith Technoleg Iechyd, ond gallai fod ar sail ddwysach, fesul un, yn ôl yr angen o gydnabod bod gan wahanol brosiectau wahanol fannau

cychwyn yn nhermau gwybodaeth a galluoedd gwerthuso (fel y mae'r adolygiad hwn wedi ei ddangos).

- Datblygu a chywreinio model rhesymeg y rhaglen ymhellach (fel y'i pennir ym Mhennod 4 o'r adolygiad hwn) a rhannu hyn â Bwrdd y Rhaglen ac â’r prosiectau trwy'r canllawiau a'r pecyn cymorth arfaethedig.
- Cyflawni dadansoddiad lefel rhaglen pellach o'r dystiolaeth werthuso lefel prosiect pan fydd hyn ar gael, a chyfuno hyn â gwaith ymchwil sylfaenol pellach (gyda rhanddeiliaid, y prosiectau a ariennir ac o bosibl gyda'r ymgeiswyr aflwyddiannus) er mwyn cynhyrchu asesiad mwy gorffenedig a chyflawn o effaith.

## 8. Casgliadau ac Argymhellion

8.1 Ein casgliad cyffredinol ni, o’r adolygiad cynnar hwn, yw bod y Rhaglen ETT yn cynnig ymateb priodol ac ystwyth i’r angen clir am gyflymu’r broses o fabwysiadu technoleg yn y GIG yng Nghymru, er bod angen gwerthusiad pellach er mwyn asesu'r effaith. Mae'n cyd-fynd yn dda â'r ffactorau allweddol sy'n gyrru polisi yn ei flaen, a'r canfyddiad yw y bydd yn cyflawni amrywiaeth priodol o weithgareddau’n gyflym a’i fod yn gyson iawn â nodau a bwriadau gwreiddiol y rhaglen.

**Y Rhesymeg a'r Dyluniad**

8.2 Cychwynnodd Llywodraeth Cymru'r Rhaglen ETT er mwyn helpu i gyflymu gwaith y GIG yng Nghymru wrth werthuso a mabwysiadu technolegau, cynhyrchion a gwasanaethau newydd. Nod y rhaglen yw creu manteision gwirioneddol o ran effeithlonrwydd, gwella deilliannau i gleifion a hwyluso gwell cyfraniad at greu cyfoeth yng Nghymru gan GIG Cymru.

8.3 Mae'r gwaith a gyflawnwyd gan y Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles, ac ymchwiliad a gyflawnwyd gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gosod y sail o ran pwyso a mesur graddfa'r her, a hynny wrth ddarparu cyd-destun polisi a rhesymeg clir ar gyfer y Rhaglen ETT a phenderfyniad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi'n rhagweithiol yn y maes. Mae'r Rhaglen ETT yn cyd-fynd yn dda â'r fframwaith polisi hwn, ac mae yna gytundeb helaeth ymysg rhanddeiliaid bod yna angen am y Rhaglen, a bod y materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw’n rhai go iawn.

8.4 Mae strwythur priodol i'r Rhaglen ETT o gylch pedair prif thema sydd, gyda'i gilydd, yn darparu ymateb cynhwysfawr i'r sialensiau a'r cyfleoedd a nodwyd yng nghyd-destun technoleg ac arloesedd yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

8.5 Dyluniwyd y rhaglen yn bwrpasol i brofi a chyflawni mentrau’n gyflym, ac i weithredu mewn ffordd ystwyth sy'n caniatáu ar gyfer manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd. Yn anarferol ar gyfer menter o'r math hwn gan Lywodraeth Cymru, nid oes gan y Rhaglen ETT fanyleb prosiect ffurfiol na chynllun busnes sy'n pennu'r nodau, yr amcanion, y cynlluniau cyflawni neu'r deilliannau. Fodd bynnag, mae hyn yn rhywbeth y mae angen amdano yn llygaid y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid, a byddai o gymorth mawr wrth gyfleu nodau ac amcanion y Rhaglen yn gliriach, ac wrth ddarparu cysylltiad mwy cadarn a gweladwy rhwng polisi, y prif sbardunau strategol a'r gweithrediadau sy'n cael eu cyflawni gan brosiectau ar lawr gwlad.

**Gweithrediad ac Effeithiolrwydd**

8.6 Hyd yn hyn, mae'r Rhaglen ETT (hyd at, a chan gynnwys cyfnod ariannu 2016/17) wedi buddsoddi mewn cymysgedd priodol o brosiectau sy'n cwmpasu arloesi clinigol a gweinyddol. Mae cyflymdra esblygiad a gweithrediad y Rhaglen trwy'r prosiectau a ariennir wedi bod yn drawiadol, ac mae hyn yn nodwedd bwysig yn nhermau cynyddu cyflymdra'r prosesau ar gyfer mabwysiadu technoleg o fewn y GIG. Mae'r cyllid a ddosbarthwyd o dan amrywiol themâu'r Rhaglen ETT wedi cael ei amddiffyn. Mae hyn yn nodwedd allweddol o'u gweithrediad hefyd, ac yn un sy'n hanfodol bwysig yn nhermau cadw ffocws y Rhaglen ac wrth sicrhau nad yw cyllid yn cael ei arall-gyfeirio neu ei arall-ddyrannu i gyllidebau prif ffrwd y GIG er mwyn ymateb i bwysau parhaus ar gyllidebau.

8.7 Nodwedd werthfawr o'r Rhaglen ETT yw'r goddefiant ymhlyg a phwrpasol i risg yn y ffordd y mae'n cael ei darparu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod na fydd pob un o'r prosiectau a ariennir yn llwyddo. Ond maent yn cydnabod hefyd bod dysgu trwy fethu yn gallu bod yr un mor bwysig a gwerthfawr, a'i fod yn gallu arwain at ddatgomisiynu neu derfynu arferion aneffeithiol yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus.

8.8 Yn nhermau gweithrediad y rhaglen hyd yn hyn, mae hi'n amlwg o adolygu dogfennau'r prosiect a chasglu tystiolaeth gan randdeiliaid, bod y Rhaglen yn cyflawni ar garlam ac mewn ffordd ystwyth, a bod y gweithgarwch a ariennir yn cyd-fynd yn dda â'r bwriadau gwreiddiol. Fodd bynnag, mae yna nifer o gyfleoedd i wella'r ffordd y cyflawnir y Rhaglen. Nodir ein casgliadau mewn perthynas â'r gwelliannau posibl hyn yn y paragraffau canlynol.

8.9 Gallai prosiectau sy'n gwneud cais am gyllid i'r Rhaglen ETT fod yn gliriach ynghylch eu hamcanion, eu deilliannau a'u dangosyddion. Mae yna rywfaint o arfer dda, ond ar y cyfan, dyma agwedd o'r Rhaglen y gellid ei gwella. Gellid gwireddu hyn trwy ddatblygu a mabwysiadu canllawiau sydd ychydig bach yn fwy manwl (heb fod yn rhy gyfarwyddol) ar gyfer ymgeiswyr, a hynny'n seiliedig ar ddogfen fanyleb glir ar gyfer y rhaglen, sy'n galluogi prosiectau i ddangos yn gliriach sut y maent yn cyd-fynd â'r Rhaglen.

8.10 Gellid gwella'r Rhaglen hefyd trwy dynhau ar sut y mae prosiectau'n adrodd ar gynnydd. Eto, mae yna arfer dda i dynnu arni yma, ond mae angen i hyn fod yn fwy systemig a chyson, gyda defnydd mwy helaeth o'r templed adrodd cyffredin.

8.11 Mae rhai o'r rhanddeiliaid yn teimlo bod y Rhaglen ETT, ac yn benodol y cylchoedd galwad agored ar gyfer prosiectau o dan thema 1 (prosiectau gwerthuso cyflym ac uwchraddio) yn ddwys o ran eu defnydd o adnoddau, o safbwynt yr ymgeiswyr a Llywodraeth Cymru ill dau. Mae'r ffurflen gais ei hun yn gryno ac yn addas at y pwrpas. Fodd bynnag, gallai fod yn bosibl cyflawni gwaith blaenoriaethu pellach ar geisiadau cyn eu datblygu a'u cyflwyno er mwyn gwella effeithlonrwydd. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r pryder hwn, dylai Llywodraeth Cymru ofalu rhag mygu neu lesteirio creadigrwydd, yr arloesedd neu'r cyflymdra cyflawni y mae'r Rhaglen wedi llwyddo i'w meithrin.

8.12 Mae angen hefyd i Lywodraeth Cymru ystyried a allai'r Rhaglen elwa o sail gwybodaeth ehangach, ddyfnach a mwy technegol er mwyn helpu i fwydo penderfyniadau'r panel sy'n asesu ceisiadau gan brosiectau am gyllid o dan thema 1. Yn benodol, dadleuodd rhai rhanddeiliaid y gallai'r prosiectau a ariennir gan ETT wneud rhagor i ddangos eu bod yn cyd-fynd yn llwyr ac yn glir â rhaglenni a mentrau eraill GIG Cymru, ac yn wir â mentrau eraill Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o sbarduno newid o fewn systemau ac arloesi.

8.13 Er bod cyflymdra’r ddarpariaeth yn nodwedd graidd a chadarnhaol o'r Rhaglen ETT, mae'r dystiolaeth o'r adolygiad hwn yn awgrymu bod rhai prosiectau'n ei chael hi'n anodd ymdopi â'r amserlenni tynn rhwng cymeradwyo prosiectau (yn yr hydref) a'r adeg y mae angen i'r prosiectau ddechrau gweithredu (Ebrill). I rai, nid yw'r amser cyflwyno yma'n ddigonol i baratoi, ac mae hyn yn broblem yn arbennig pan fo angen recriwtio staff er mwyn cychwyn prosiectau. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol ohono ac mae'r Llywodraeth wedi dechrau mynd i'r afael â'r peth trwy gyflwyno amserau cyflwyno hirach.

**Effaith, Monitro a Gwerthuso**

8.14 Yn seiliedig ar ein cyfweliadau gyda rhanddeiliaid, a'r adolygiad o ddogfennau prosiect, mae yna arwyddion calonogol y gwelwn effeithiau cadarnhaol wrth i nifer o brosiectau aeddfedu. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd bod yna anghysondeb yn nhermau'r dulliau o fynd ati i fonitro a gwerthuso ar draws portffolio'r prosiectau ETT. Mae hwn yn faes y byddai’n hawdd mynd i'r afael ag ef, ac mae’n gymharol rwydd ac yn gost-effeithlon i’w wella trwy fabwysiadu fframwaith sy'n seiliedig ar ddeilliannau, gan ganiatáu i brosiectau ddewis nifer hydrin (rhwng tri a phump) o ddangosyddion ymlaen llaw i’w dadansoddi wedyn ar lefel Rhaglen. Yn ddelfrydol, byddai angen canllawiau mwy manwl i gyd-fynd â hyn, a chymorth parhaus i hyrwyddo diwylliant o ddysgu ymysg y prosiectau a ariennir.

8.15 Ychydig iawn o dystiolaeth ddogfennol sydd yna hyd yn hyn am y deilliannau neu'r effeithiau y mae'r Rhaglen ETT wedi eu cynhyrchu. I raddau helaeth, mae hyn am fod y rhan fwyaf o'r prosiectau y mae'r rhaglen yn eu hariannu naill ai ar gyfnod cymharol gynnar yn eu datblygiad, neu maent yn dal i gyflawni, ac nid ydynt wedi casglu a dadansoddi tystiolaeth fonitro a gwerthuso ystyrlon hyd yn hyn.

8.16 Yn seiliedig ar y casgliad cyffredinol bod y Rhaglen ETT yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau, rydyn ni wedi pennu cyfres o 10 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru i'w hystyried yng nghyd-destun gwella rhywbeth sydd eisoes yn rhaglen gadarn, ac sydd â'r potensial i gyflawni amrywiaeth pwysig o ddeilliannau ac effeithiau. Ni ddylai'r argymhellion hyn fod yn or-feichus nac yn ddwys o ran adnoddau (ar gyfer Llywodraeth Cymru nac ar gyfer yr ymgeiswyr) i'w gweithredu, ac fe'u cynigir yn yr ysbryd o alluogi'r Rhaglen ETT i barhau i gael ei chyflawni mewn ffordd ystwyth ac ymatebol.

**Argymhelliad 1**

8.17 Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithredu'r Rhaglen ETT er mwyn caniatáu ar gyfer cyflawni asesiad o effaith a dysgu pellach ar draws holl gwmpas y prosiectau. Dylai barhau i wneud hyn ar sail model ariannu 'neilltuedig' h.y. bod y cyllid yn dal i gael ei neilltuo at y dibenion penodol a fwriedir. Bwriedir i'n hargymhellion yn sgil hynny gadarnhau'r gwaith o fesur deilliannau, fel y gellir adolygu effaith a gwerth y rhaglen yn gyson.

**Argymhelliad 2**

8.18 Dylai Llywodraeth Cymru lunio dogfen fanyleb sy'n pennu'n glir y nodau a'r amcanion ar gyfer y Rhaglen ETT a'r deilliannau a ddisgwylir ganddi. Nid oes angen i'r gwaith o lunio'r ddogfen fod yn ddwys o ran adnoddau. Ni ddylai olygu newid sylweddol o ran ystwythder cynhenid y rhaglen ychwaith. Dylid defnyddio dogfen fanyleb y rhaglen fel sail ar gyfer cywreinio ac ychwanegu manylder at y model rhesymeg amlinellol a bennir yn yr adroddiad adolygu hwn hefyd. Dylai Bwrdd y Rhaglen gael mewnbwn i, a chael eu hannog i fynnu teimlad cadarn o berchnogaeth dros ddogfen fanyleb y rhaglen a'r model rhesymeg.

**Argymhelliad 3**

